

CLONC

www.clonc.co.uk - Yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 323 - 60c
Mai 2014

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanyrcrws ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Llysgenhades
newydd CFfl
Sir Gâr**



Tudalen 5

**Cadwyn
Cyfrinachau
arall**



Tudalen 19

**Rhedwyr
Marathon
Llundain**



Tudalennau 6 a 10

Hwyl a Hamdden, Gŵyl a Gwaith



Hanna Davies, Ysgol Cwrtnewydd wedi cyrraedd rownd derfynol Cogurdd yr Urdd gyda Dudley Newbery.



Anwen ac Aled CFfl Llanllwni wedi ennill 'ATV Challenge' lefel Cymru.



Cynhaliodd Cyngor Tref Llambed ddisgo a lluniaeth ysgafn i ddisgyblion iau Ysgol Bro Pedr cyn gwyliau'r Pasg. Yn y llun gwelir y Maer, y Cynghorydd Dorothy Williams, yn joio yng nghanol y plant.

Pêl-droed



Tîm pêl-droed dan 13 Llambod gyda'i hyfforddwraig Claire yn derbyn tariannauam ddod yn ail yn nhwrnament Felinfach. Derbyniodd Osian darian golgeidwad y twrnament dan 13.



Tîm pêl-droed Llambod dan 16 gyda'i hyfforddwr Paul yn dod yn ail yn nhwrnament Felinfach.

Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambod, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecks * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY

T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol ac Yswiriant diogelwch incwm.

Gary Davies BSc(Hons), Dip IP PFA

Beca Russell BSc(Hons), MSc(Hons), Dip PFS

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl. Os nad ydych yn cadw lan gyda'ch ad-daliadau mae'n bosib i chi dderbyn gorchymyn aiffeddiannu am eich cartref.



www.facebook.com/clonc



@Cloncyn

Rhannwch eich newyddion lleol gyda Phapur Bro Clonc.



Dyfynnodd

@Cloncyn neges
@SCards_Football.

Ebrill 19

Tîm Pêl-droed

#Llanbed yn ennill
#EmrysMorganCup.
Da iawn wir.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Meinir Jones

Ebrill 14

Diadell o ddefaid
Texel Glas Dylan a
Bethan Beilibedw
Llanllwni ar Ffermio.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Clwb Hoci Llanybydder

Ebrill 13

..da iawn heddi!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Rhannodd **Papur Bro Clonc** lun Gwyneth Lewis

Ebrill 11

Tîm rygbi dan 16 oed
ar daith i Bwllheli.
Joiwch!

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Aildrydarodd

@Cloncyn neges
@DelythPhillips.

Ebrill 8

Swper Pasg Noddfa:
cymun gan
@JillTomas a Llinos yn
golchi traed y plant.

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu



Trydarodd

@Cloncyn

Ebrill 6

Noson hyfryd yng
Nghinio Siamb
Fasnach #Llanbed i
godi arian tuag at
@alzheimerssoc

Hoffi . Gwneud Sylw . Rhannu

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mai Delyth Phillips, Llety Clyd, Stryd Newydd 422992
Mehefin Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd,
Marian Morgan a Delyth Phillips

Dylunydd y mis Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com
Teipydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015

Gohebwyr Lleol:

Cellan Alwen Edwards, Awel Teifi 421001
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybrenin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Elin Thomas, 1 Teras Sycamor 480239
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach 481855
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644
Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

- Mae Clonc yn aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion.
- Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwy i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gallwch adael newyddion a lluniau yn Crown Stores, Y Stryd Fawr, Llanbedr Pont Steffan.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwch luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Sicrhewch fod gennych ganiatad rhieni cyn tynnu llun plant i'w gynnwys yn Clonc. Rhoddir rhifynnau Clonc ar y wefan maes o law.
- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddilyn Clonc ar: Gwpeylfr - www.facebook.com/clonc a Trydar - @Cloncy
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £17.50 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Gallith pobol ddim byw ar flode!

Ar ddydd Iau, 17 Ebrill, roedd eitem ar Taro'r Post BBC Radio Cymru yn trin a thrafod cyflwr y stryd fawr yn Llambled. Nid yw'n gyfrinach fod siopa'n cau yn y dref a bod hynny'n peri i'r dref ymddangos yn llawer gwacach – o ran busnesau ac o ran pobol yn cerdded ar hyd y strydoedd. Mae deiseb wedi'i dechrau er mwyn lleihau trethi busnes Llambled yn y gobaith o adfywio canol y dref. Garry Owen yw cyflwynydd byrlymus a phoblogaidd Taro'r Post, a chafodd sgysiau gyda gwahanol gymeriadau sydd â phrofiad o redeg busnesau ac o fyw yn Llambled. Braf oedd clywed acenion naturiol a chyfoethog Dyffryn Teifi ar y tonfeddi.

Tystiai Maer y dref, Dorothy Williams, ei bod yn gallu siopa popeth y mae eisiau arni yn y dref – roedd popeth a brynodd ar gyfer cinio'r Ifanc o Galon, er enghraifft, yn gynnrych lleol. Soniodd hefyd am yr ymdrech i wneud y dref yn ddeniadol, a dyna egluro sylw bachog Garry Owen, 'Gallith pobol ddim byw ar flode!'

Cafwyd cyfraniad gan Gynghorydd Cyngor Ceredigion a pherchennog siop, Hag Harries. Roedd yntau'n gweld y we fyd eang yn fygythiad mawr i siopa a busnesau go iawn, ac yn ymwybodol fod miloedd o CDs er enghraifft yn cael eu prynu ar-lein.

Clywyd sut mae Angharad Williams, perchennog siop ddillad Lan Lofft, yn defnyddio'r we fyd eang at ddibenion o'i phlaidd, trwy hyrwyddo'i chynnyrch ar Facebook a Twitter.

Roedd Gethin Morgan, un o brif ddisgyblion Ysgol Bro Pedr, yn cydnabod bod modd gwneud siopa bwyd i gyd yn y dref, ond petai'n dibynnu ar siopau ddillad Llambled, byddai'n cerdded o gwmpas yn hanner noeth! Mae prinder siopau ddillad i ddynion ifanc yn y dref, does dim dwywaith am hynny. Ac fel rhywun ifanc, mae yntau'n gweld fod angen hyrwyddo'r dref yn well ar y cyfryngau cymdeithasol ar y we fyd eang.

Felly, beth yw'r ateb? Mae'n siŵr fod gan bob un ohonom ni farn ar hyn, p'un ai ein bod ni'n bobol busnes neu'n economegwyr neu'n deall dim am y maes! Ond ein cyfrifoldeb ni yw gweld y gwerth a'r cyfoeth sydd o'n cwmpas, cyn y bydd yn rhy hwy.

Gobeithio ein bod ni i gyd, ddarlennwyr Clonc, yn gweld gwerth yn siopa'n lleol. Yn anffodus, mae faniau Asda (ac eraill o bosib) yn teithio'n rhy aml o lawer i'r ardal hon, a da fyddai i ni gofio bod mwy na digon o siopau (ie, gan gynnwys archfarchnadoedd) yn Llambled ac yn nhrefi eraill Ceredigion.

Da chi, cadwch eich busnes yn lleol! **Cloncen**

Ysgol Bro Pedr



Siriol Howard disgybl ym mlwyddyn 5 Ysgol Bro Pedr yn arddangos ei chorgi Llwynderi Sali yn sioe gŵn Crufts.

Gwnaeth yr Ysgol yn arbennig o dda yn Eisteddfod Sir yr Urdd. Bydd Parti Unsain yr Ysgol a'r Gân Actol yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Llongyfarchiadau i'r canlynol ar wneud yn arbennig o dda yn y Sir: 2ail Ensemble Offerynnol, Sioned a Ffion (deuawd), Elan (cerdd dant), Aisvarya (llefaru), Parti Cerdd Dant, Grŵp Dawnsio Disgo, Filip (dawnsio), ac yn 3ydd Nikola (llefaru), Elan (alaw werin), Austin (llefaru), Grŵp Llefaru i Ddysgwyr, Parti Deulais. Diolch i bawb fu'n hyfforddi ac yn cynorthwyo mewn unrhyw ffordd tuag at lwyddiant y disgyblion.

Cynhaliwyd cystadlaeth Trawsgwlad y Tair Sir yn ddiweddar; da iawn i bawb fu'n cystadlu a diolch i Mr Roderick am drefnu. Llwyddodd tîm merched blwyddyn 3 i ddod yn ail, Owen Rowcliffe yn bedwerydd yn ras bechgyn blwyddyn 5, a Ruth Davies yn ddeuddegfed yn ras merched blwyddyn 6 – arbennig iawn.

Cafwyd prynhawn o ddawnsio disgo cyn gwyliau'r Pasg. Diolch i Faer y Dref a Chyngor Tref Llambled am ddarparu disgo a lluniaeth ysgafn i'r disgyblion – gwerthfawrogi hyn yn fawr. Bu Techniquet yn cynnal gweithdai gwyddoniaeth gyda disgyblion blynyddoedd 5 a 6 a chafwyd llawer o hwyl yn darganfod ac yn arbofi. Diolch iddynt am ddod atom. Gwnaeth timau'r bechgyn a'r merched yn arbennig o dda yng nghystadlaeth Sirol yr Urdd yn ddiweddar a diolch i Mr John a Mrs Costello am eu hyfforddi. Enillodd y merched bob gêm yn y rowndiau cyntaf, ennill yn rownd y chwarter a cholli o un gôl i ddim yn y rownd gyn derfynol. Y bechgyn hefyd yn ennill pob gêm yn y rowndiau cyntaf ac un gêm gyfartal a cholli yn y chwarteri. Bu disgyblion blwyddyn 6 yn cael sgiliau hoci ar y cae aml bwrpas gydag ysgolion y cylch. Gwnaeth tîm A yn arbennig o dda gan gyrraedd y ffeinal.



MAI

- 3 - Eisteddfod Capel y Fadfa Talgarreg. Manylion gan Emyr Griffiths 01545 590383 neu Enfys Llwyd 01545 590295.
- 3 - Rali C.Ff.I. Sir Gâr yng Nghaerfyrddin.
- 4 - Agoriad Swyddogol Clwb Rygbi Llanbed. Gweithgareddau teuluol yn dechrau am 11.30yb. Seremoni Agoriadol am 1.00yp.
- 5 - Calan Mai Ysgol Cwrtnewydd.
- 5 - Helfa Drysor flynyddol C.Ff.I. Llanwenog am 6.30y.h. yn dechrau o Ysgol Llanwenog.
- 8 - Cyngerdd Pigion Eisteddfod yr Urdd Ysgol Bro Pedr, Adran ac Aelwyd Llanbed yn Neuadd Ysgol Bro Pedr am 7.00y.h.
- 11 - Rihysal Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan - Caersalem Parcyrhos am 2.00y.p.
- 11 - Gymanfa Ganu Annibynwyr Cylch Llanbed yn Shiloh am 5.00y.p.
- 13 - Cyfarfod Blynnyddol Clonc yng Nghlwb Rygbi Llanbed am 7y.h.
- 14 - Hyfforddiant Clonc a Golwg360 i gymdeithasau ac unigolion er mwyn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyflwyno newyddion lleol.
- 15 - Cyfarfod Blynnyddol Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni am 8.00y.h. yn Ysgol Gynradd Llanllwni. Croeso cynnes i bawb.
- 17 - Gwledd y Ffair - Tom Holden yn Neuadd Fictoria, Llanbed am 7.30y.h. i godi arian i Ffair Fwyd Llanbed.
- 17 - TREGaRoc Tregaron.
- 17 - Amgueddfa Llanbed ar agor i'r cyhoedd, o 10yb i 4yp, ac o hynny ymlaen bob dydd Mawrth, Iau a Sadwrn, yr un amser.
- 18 - Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan - Salem Caio am 2.30 o'r gloch.
- 24 - Carnifal a Mabolgampau Cwmann yng Nghae'r Pentref 12.30y.p. Ras Hwyl Plant 3.45yp, Oedolion 4.30yp
- 24 - Cinio C.Ff.I. Llanllwni yn Plough, Rhosmaen.
- 25 - Diwrnod cofrestru Theatr Ieuenctid Llanbed (ar gyfer pobl ifanc rhwng 5 ac 18 oed) am 4.30yp yn Neuadd Fictoria, Llanbed.
- 26 - Arwerthiant Cist Car ym Mhumsaint 10-12. Trefnir gan Gangen Pumsaint o Sefydliad y Merched.
- 30 - It's a Knockout C.Ff.I. Llanllwni ar gaeau Abercwm, Llanllwni.

MEHEFIN

- 6 - Noson Helfa Drysor C.Ff.I. Llanllwni.
- 7 - Rali C.Ff.I. Ceredigion ar fferm Llechwedd, Llanwenog.
- 8 - Cymanfa'r Rali yng nghapel Brynhafod.
- 13 - Gwledd y Ffair - 25 Mile yn Neuadd Fictoria, Llanbed am 7.30y.h. i godi arian i Ffair Fwyd Llanbed.
- 20 - Ras yr Iaith - Cymal Llanbed tua 2.00y.p.
- 27 - Cyngerdd dathlu hanner can mlwyddiant Côr Cwmann a'r Cylch yn Neuadd Sant Iago Cwmann gyda Corisma a phlant Carreg Hirfaen.
- 28 - Carnifal Llanybydder ar y Cae Rygbi am 2 o'r gloch.

GORFFENNAF

- 11 - Cyngerdd dathlu 25 mlynedd o waith R.A.B.I. yng Ngheredigion yn Neuadd Aberaeron.
- 13 - Capel Brynteg - Cyngerdd gan Gor Lleisiau'r Werin am 7.30y.h.
- 26 - Ffair Fwyd Llanbed ar dir y coleg.

AWST

- 2 - Carnifal Llanbedr Pont Steffan.
- 8 - Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.
- 30 - Penwythnos Eisteddfod Llanbedr Pont Steffan



Bore Gwener y Groglith, bu aelodau eglwysy'r dref yn cerdded ar daith o dystiolaeth yn Llanbed. Yn y llun gwelir rhai y tu allan i Soar.

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Ar Nos Lun Ebrill 7fed cyfarfu'r Sefydliad yn festri Capel y Groes. Estynnodd ein llywydd Mrs Avril Jones groeso cynnes i bawb a chyfeiriodd mor hyfryd oedd gweld Elsa Thomas yn ôl yn ein plith ar ôl bod yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd Gwen a Gwilym Davies, Llys Aeron ar dathlu eu Priodas Aur yn ystod y mis.

Bu Avril Jones, Alice Davies a Gwen Davies yn mynychu cyfarfod ein grŵp yn Felinfach yn ddiweddar a rhoddodd Alice Davies adroddiad am ein digwyddiadau yn ystod y chwe mis diwethaf. Rhoddodd Gwen Davies hanes y cyfarfod i'r aelodau a soniodd iddi fod yn noson hyfryd. Yna gwnaeth ein llywydd gyflwyno'r gŵr gwadd sef Mr Bob Grimes o Llanllwni. Bu'n siarad am ei waith gyda Bad Achub yr RNLI a chafwyd noson hwylus ac addysgiadol yn ei gwmni.

Gweinwyd y te gan Joyce Flexman a Gwen Davies. Talwyd y diolchiadau gan Joyce Flexman.

Enillwyd y gystadleuaeth am gerdyn ar lan y mor gan Alice Davies (1af), Ceinwen Roach (2il) ac Irene Jackson (3ydd).

Enillydd y raffl oedd Jean Jones.

Priodas Arian

Dathlodd Delyth ac Anthony Jones, 4 Bro Llan eu Priodas Arian yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi mwynhau'r diwrnod.

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

FFAIR GWIRFODDOLWYR

Dydd Iau, Mehefin 5^{ed}

10:00 - 16:00

Diwrnod agored i fwynhau, dathlu a hyrwyddo gwirfoddoli

Mynediad am ddim!

gwd@llgc.org.uk / 01970 632991



PLANHIGFA GRANNELL NURSERY

Capel y Groes,
Llanwnnen
SA48 7LE
01570 434548
www.grannell-nursery.co.uk

Planhigion llysiau, lluosfwydd, blodau'r haf a'r gaeaf, perlysiâu, coed ffrwythau a mwy!

Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn
10yb ~ 5yp
Dydd Sul 10yb ~ 4yp
Ar gau Dydd Llun heblaw Gŵyl y Banc

**TEIARS
HUW
LEWIS
TYRES**

HUWLEWISTYRES.COM
LLANBEDR PONT STEFFAN
01570 422221

Weldio D & W Welding

01570481153 / 07915543623

Caerwenog,
Penffordd,
Llanybydder,
Ceredigion,
SA40 9XG

Darparu gatiâu a rheiliau
haearn ac hefyd eich holl
waith weldio ac atgyweirio

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

**Sioned Green
a Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llanbed
01570 423135
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

**Gwasanaethau Coed
Teifi
Tree Services**

Pob math o waith ar goed
Torri cloddiau * Plygu cloddiau
Wedi yswirio'n llawn
Dyfnbris am ddim
Coed tân ar werth

Lyn Davies
01239 851001 / 07796 682448

Sefydlwyd 1797

D. Lloyd a'i Feibion
Glanrwyth, Pumsaint,

Ffôn: 01558 650209 a 650451,
Ffacs: 01558 650440

**Masnachwyr coed
a nwyddau adeiladu
a ffensio o bob math
Glo caled a glo meddal
o'r ansawdd gorau**

C.Ff.I. Sir Gâr

Cynhaliwyd Diwrnod Gwaith Maes C.Ff.I Sir Gâr Ddydd Sadwrn cyntaf mis Ebrill yn ardal Dyffryn Cothi. Roedd yn ddiwrnod gwlyb a diflas ond daeth llu o aelodau i gystadlu er gwaetha'r tywydd.




Canlyniadau'r dydd: Stocmon Hŷn - 1af Eirwyn Richards, C.Ff.I. Dyffryn Cothi; 2ail= Rhian Lewis, C.Ff.I. Dyffryn Cothi; 2ail= Rhys Jones, Llannon; 4ydd Hefin Evans, C.Ff.I. Capel Iwan. Stocmon Iau - 1af William Griffiths, C.Ff.I. San Cler; 2ail Jack Davies, C.Ff. I. Llangadog; 3ydd Rhodri Davies, C.Ff.I Llangadog; 4ydd Caryl Howells, C.Ff.I. Llangadog.

Roedd naw tîm yn cystadlu yn y gystadleuaeth ffensiô a gwnaeth y naw lwyddo i wneud ffens o safon uchel dan amgylchiadau anodd a thywydd gwlyb. C.Ff.I. Llanfynydd ddaeth i'r brig gyda Ioan Jones,

Daniel Thomas ac Elgan Thomas yn y tîm. Gethin Davies, Aled Davies a Gareth Davies, Llangadog ddaeth yn 2ail, a Danny Jones, Dylan Lewis ac Aled Thomas o Ddyffryn Cothi yn 3ydd.

Cystadleuaeth ymwybyddiaeth gyrru oedd y 'Drive it Home', ymgyrch y mae'r Mudiad yn genedlaethol ar hyn o bryd yn ei hybu. Sam Joynson a Ffion Rees, Llanllwni oedd yn gyntaf gyda Iestyn Owen a Simon McCall, Capel Dewi a Rhian Davies a Llinos Davies hefyd o Gapel Dewi yn rhannu yr 2ail safle.

Diolch o galon i deulu Pantiauw, Llansawel, Maesllanwrthwl, Crugybar ac Aberbranddu Cwrt y Cadno am fodloni i ni feirniadu ar eu Ffermydd ac am baratoi stoc. Hefyd diolch i'r holl feirniaid a stiwardiaid am eu gwaith ar y diwrnod ac i bawb wnaeth gynorthwyo i sicrhau llwyddiant y dydd.



Dyma lun o Lysgenhades a Llysgenad newydd C.Ff.I. Sir Gâr. Elin Davies, Cadeirydd y Sir; Mathew Jones, C.Ff.I. Dyffryn Tywi - Dirprwy Llysgenad; Ben Jones, C.Ff.I. Llangadog - Llysgenad; Meryl Davies, C.Ff. I. Llanllwni - Llysgenhades; Mared Tomos, C.Ff.I. Llangadog - Dirprwy Llysgenhades; John James, Llywydd y Sir.

C.Ff.I. Ceredigion

Ar ddydd Sadwrn y 29ain o Fawrth, aeth llwyth ohonom i Lanelwedd i glebran! Ie - roedd y Gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus wedi rowndio unwaith eto eleni. Ac mae'n ffaith ein bod ni fel sir yn rhai da am glebran, gan i ni ennill Tarian Eryl Williams am y mwyaf o farciau yn y Siarad Cyhoeddus Cymraeg. Canlyniadau'r Diwrnod Siarad Cyhoeddus: Just a Minute: C.Ff. I. Llangathio yn ail; Arddangosfa Ciwb: C.Ff.I. Llanwenog yn 4ydd. Saesneg: Adran Ddarllen Saesneg: 9fed Glesni Thomas, Ifan Jones a Dafi Jones o Glwb Pontsian. Adran Iau Saesneg: 9fed Bleddyn Machynlleth Jones, Llangeitho, Iwan Evans, Llanwenog a Twm Ebbsworth, Llanwenog.



Adran Ganol Saesneg: 6ed Lisa Jones, Cari Thomas, Cennydd Jones ac Elen Thomas o Glwb Pontsian. Adran Hŷn Saesneg: 3ydd Meirion Morgan, Llangeitho, Catrin Haf Jones, Mydroilyn, Enfys Hatcher, Llanwenog, Cerys Lloyd, Llanwenog a Hannah Parr, Llangeitho. Cymraeg: Adran Ddarllen Cymraeg: Ail Nest Jenkins, Lledrod a gipiodd y wobwr am y darllenwydd gorau yn y gystadleuaeth, Sion Jones, Felinfach a Mared Fflur Davies, Felinfach. Adran Iau Cymraeg: 1af Catrin Davies, Pontsian, Iwan Evans, Llanwenog a Siriol Teifi, Pontsian. Adran Ganol Cymraeg: 3ydd Gwawr Hatcher, Llanwenog, Meleri Morgan, Llangeitho, Elin Calan Jones, Llangwryfon, Lisa Jones, Pontsian a Dyfrig Williams, Llangwryfon. Adran Hŷn Cymraeg: 1af Enfys Hatcher, Llanwenog, Catrin Haf Jones, Mydroilyn, Bethan Roberts, Mydroilyn a Steffan Davies, Llanwenog.

Barnu stoc aeth ag amser nifer o'r aelodau, wrth i ni fynd i fferm Gwarffynnon, Silian i ymarfer a dysgu sut i farnu da godro.



Cynhaliwyd Diwrnod Maes Cymru yn IBERS, Aberystwyth ar 12fed o Ebrill. Canlyniadau: Barnu Stoc Hŷn: 1af Dion Davies, Pontsian, Geraint Jenkins, Talybont, Heilin Thomas, Llanwenog ac Enfys Hatcher, Llanwenog. Cipiodd Dion Davies y wobwr gyntaf am stocmon hŷn y diwrnod a Geraint Jenkins yn ail. Barnu Stoc Iau: 6ed Eiry Williams, Llangwryfon, Sioned Fflur Evans, Llanwenog, Sian Downes, Llangeitho a Sioned Evans, Llanddewi Brefi. Her ATV: 5ed Rhys Richards a Rhodri Richards, Talybont. Ffensiô: 5ed Gethin Hughes, Gareth Harries a Dilwyn Harries, Llanddeiniol. 'Drive it Home' 5ed Carwyn Davies a Sophie Jones, Llanwenog. Fferm Ffactor Iau: 6ed Dyfan a Lowri Jones, Lledrod. Ar ddiwedd y diwrnod llawn cystadlu, daeth Ceredigion i'r 5ed safle.

Canu oedd prif ddigwyddiad nos Sul y 6ed o Ebrill, wrth i bawb ymgynnull yng Nghapel Aberduar, Llanybydder ar gyfer Cymanfâ'r Frenhines a'r Ffermwr Ifanc. Dyma noson fywiog llawn hwyl o dan arweiniad Einir Ryder, gyda Rhiannon Lewis wrth yr organ. Llywydd y noson oedd Gwyneth Davies, Pledrog, Talgarreg. Codwyd £875, ac mae'r arian yn cael ei rannu rhwng DASH a R.A.B.I.

Ymlaen â ni i'r pwl nŷ nofio ar y nos Lun canlynol ac i gystadlu yn y Gala Nofio ym mhwl nŷ nofio Aberaeron. Emlyn Lewis o Glwb Pennant oedd nofiwr cyflymaf y noson. Canlyniadau'r Gala Nofio: 1af Felinfach; Ail Pontian; 3ydd Llanwenog.

Daeth dros 180 o bobl i Ginio'r Cadeirydd ym Mhrifysgol Drindod Dewi Sant Llambed ar nos Iau'r 17eg o Ebrill. Cafwyd bwyd blasus, canu, ocsiwn a lot fawr o fwynhau a chwerthin. Codwyd dros £3,000 i ddwy elusen arbennig iawn sef C.Ff.I. Ceredigion ac Ambiwylans Awyr Cymru. Diolch i Emyr Lloyd ac i Einir Ryder am eu gwaith fel Cadeiryddion y Sir am y ddwy flynedd ddiwethaf, ac i bawb am gefnogi'r noson.

Ysgol Cwrtnewydd

Treuliodd plant y Cyfnod Sylfaen ddiwrnod yn Llanerchaeron yn ddiweddar lle cafwyd cyfle i ddysgu sut oedden nhw'n arfer golchi yn yr hen ddyddiau. Cawsant eu tywys hefyd o gwmpas y tŷ a'r fferm.

Mae Hanna Davies wedi cyrraedd y rownd derfynol yng nghystadlaeth Cogurdd yr Urdd ac fe fydd yn cynrychioli'r rhanbarth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala. Llongyfarchiadau calonnog iddi a phob lwc!

Treuliwyd un prynhawn yn diddanu'r henoed yn Alltymynydd. Bu'r plant yn canu a llefaru iddynt ac roedd pawb wedi mwynhau. Diolch i staff Alltymynydd am y lluniaeth ysgafn a dderbyniodd y plant ar ddiwedd y perfformiad.

Braf oedd croesawu Mr Chris Jones, un o gyflwynwyr y tywydd S4C i'r ysgol. Roedd y plant wedi mwynhau yn ei gwmni yn fawr iawn.

Ar brynhawn ola'r tymor, cymerodd disgyblion blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 ran yng nghystadlaeth Trawsgwlad y cylch yn Llambod. Fe fydd nifer ohonynt yn cynrychioli'r ysgol yn y rownd nesaf. Da iawn i bawb a gymerodd ran ond llongyfarchiadau arbennig i Alaw Jones, Lisa Jenkins, Lois Jones, Beca Jenkins, Luned Jones, Catrin Schröder, Arwel Williams a Carwyn Davies.

Ar ddiwedd y tymor cymerodd nifer o blant yr ysgol ran yng nghyngerdd Pantyfedwen yn Ysgol Bro Pedr. Roedd yn noson hwylus dros ben a phawb wedi mwynhau. Diolch i Meinir Davies am gyfeilio i'r Parti Unsain.

Cynhaliwyd noson Pigion Pasg yn ystod wythnos ola'r tymor; perfformiodd y plant eitemau a baratowyd ganddynt ar gyfer Eisteddfod yr Urdd yn ogystal ag eitemau amserol eraill. Diolch i Meinir Davies am gyfeilio i rai o'r eitemau ac i bob un a gynorthwyodd i sicrhau noson lwyddiannus!

Braf oedd clywed y newyddion gwyb bod mab bach sef Efan Morgan wedi eni ar Ebrill 17fed i Hannah a Celt Thomas. Llongyfarchiadau mawr iddynt fel teulu bach oddi wrth Plant a Staff Ysgol Cwrtnewydd.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys iawn ag Alan Jones, Penlanfach a Sulwen a Gareth Lloyd ar golli ewythr annwyl ym mherson Tommy Jones o Felinfach. Derbyniwch ein cydymdeimlad llwyr.

Gwellhad Buan

Gwellhad Buan i Gerwyn Davies, Tynfron sydd ar hyn o bryd yn ysbytu Glangwili. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn.



Hanner marathon Eryri yn Llanrwst, Simon Hall yn gorffen mewn awr 32 munud a Mich Readwin awr 58 munud.

Ras 10K Tenovus yn y Gerddi Botaneg, Llanarthne, Helen Willoughby 46:11, Aneurin James 47:42, Eleri Rivers 48:57, Naomi Howell awr, Allan Watts awr 47 munud; Eleri Rivers yn gyntaf menywod 35, a Helen Willoughby yn drydydd menywod 45.

Cystadlodd Caryl Davies yn ras 6 Trail ym Mhortmeirion ac yn gorffen y ras yn 22 safle ac yn drydydd menyw nôl yn y ras mewn 36 munud 34 eiliad, ac yn ennill y drydydd wob.

Virgin Marathon Llundain, Tim Jones yn gorffen o dan y teirawr mewn 2awr 59 munud 43 eiliad, Mark Dunscombe 3 awr 12 munud 55 eiliad, Paul McDermott 3 awr 29 munud 44 eiliad, Dawn Kenwright 3 awr 44 munud 32 eiliad, David Thomas 3 awr 45 munud 25 eiliad, Katie McDermott 3 awr 59 munud 04 eiliad Terry Jones 4 awr 15 munud 26 eiliad. Hefyd bu dwy o redwyr iau y clwb yn cystadlu yn enw Cymru yn mini marathon Llundain dan athletau Prydain, roedd y ras yn cael ei rhedeg rhyw ddwy filltir cyn y diwedd ar gwrs y marathon: Caitlin Page 18 munud 44 eiliad a Ffion Quan 19 munud 27 eiliad.

Ras Duatholon yn Nhregaron sef rhedeg pump milltir, beicio 15 o filltiroedd a rhedeg dwy filltir arall i orffen. Dylan Lewis yn ennill y ras mewn 1 awr 13 munud 55 eiliad, Chris Schroeder 1:22:21, Simon Hall 1:24:57, Andrew Davies 1:29:05, Eric Rees 1:29:35, Dorian Rees 1:39:22. Caryl Davies 1:41:25, Elinor Morgan 1:53:33, ac yn ennill y ras gyfnewid Dee Jolly a Carwyn Hicks 1:26:02.

Sul y Pasg roedd ras Teifi 10, 135 o redwyr yn cychwyn y ras o glwb rygbi Llambod, lan i Lanfair Clydogau, nôl i Gellan ac yna nôl i'r clwb a 24 rhedwr yn gorffen y ras dan yr awr. Joshua Griffiths o Swansea Harriers, ugain mlwydd oed, yn ennill y ras mewn 52 munud 26 eiliad, 2il Michael Kallenberg Cardiff AAC 53:22 a 3ydd Steve Rees Neath 53:45. M50 1af Martin Rees Les Croupiers 55:27, 2il Peter Coles Ponypridd Roadents 57:50, 3ydd David Davies Brecon AC 61:12, M40, 1af Paul Griffiths Neath 58:35, 2il Richard Wilder San Domenico 58:56, 3ydd Eamonn Kirk Swansea Harriers 59:07. Sally Wilder San Domenico yn ennill ras y menywod mewn 65:35, 2il Nerys Jones 67:34, 3ydd Llinos Jones Amman Valley 72:41:91, Menywod 35 1af Louise Barker Aberystwyth AC 68:30:25, 2il Georgie Dando Bridgend AC 70:05, 3ydd Charmaine Wood Congleton Harriers. Menywod 45 1af Libby O'Duffy Les Croupiers 68:30:93, 2il Deborah Matthews Swansea Harriers 70:50, 3ydd Sian

Phillips Swansea Harriers 73:10.

Hefyd roedd pencampwriaeth Cymru 10 milltir yn cael ei chynnal yn ras Teifi 10. Dynion agored 1af Joshua Griffiths Swansea Harriers 52:26, 2il Michael Kallenberg Cardiff AAC53:22, 3ydd Steve Rees Neath 53:34, Dan 23, 1af Joshua Griffiths Swansea Harriers 52:26, 2il Gethin Holland Aberystwyth AC 57:56. Dynion 35, 1af Steve Rees Neath 53:45, 2il Nathaniel Lane Cardiff AAC 54:39, 3ydd Carl Ellis Neath 58:27. Dynion 40, 1af Richard Wilder San Domenico 58:56, 2il Eamond Kirk Swansea Harrier 59:07. Dynion 45, 1af Mike Pfeiffer Brecon AC 57:41, 2il Paul Griffiths Neath 58:35, 3ydd Glyn Price Sarn Helen 60:15, Dynion 50 1af Peter Cole Ponypridd Roadents 57:50, 2il Glyn Sansom San Domenico 64:27, 3ydd Mark Dunscombe Sarn Helen 67:02, Dynion 55 1af David Davies Brcon 61:12, 2il Menath Phillippart Swansea Harriers 65:09, 3ydd Nick McGeoch Les Croupiers 66:27, Dynion 65 1af Martin Rees Les Croupiers 55:27, 2il Keith Powell Cornelly Striders 65:14, 3ydd John Evans Aberystwyth 75:06. Timau: Neath cipiodd y fedal aur, aeth y fedal arian i Swansea Harriers, y fedal efydd i Les Croupiers, a Sarn Helen 'masters' aeth â'r fedal arian - Glyn Price, Andrew Abbott, Mark Dunscombe a Steve Holmes.

Ras y menywod agored, 1af Sally Wilder San Domenico 65:35. 2il Libby O'Duffy Les Croupiers 68:30 3ydd Georgie Dando Bridgend AC 70:05, dan 23 Abbie Cheetham Prestatyn 77:02 a Amy Bagnall Prestatyn 77:23. 1af Georgie Dando Bridgend AC 70:05, 2il Eleri Rivers 83:14, Menywod 45 1af Libby O'Duffy Les Croupiers 68:30, 2il Deborah Matthews Swansea Harrier 70:50, 3ydd Lisa Cleary Pennarth 75:01, Menywod 50 1af Sian Phillips Swansea Harriers 73:10, Menywod 55 1af Dawn Kenwright, 73:22, 2il Anita Worthington 75:08. Menywod 60 1af Yvonne Williams Pennarth 87:51, Menywod 65 1af Barbra Thomas Pembrokeshire Harriers 106:21, Menywod 80, Sheila Symonds Bro Dysynni 156:00. Sarn Helen aeth â'r fedal arian; yn y tîm roedd Dawn Kenwright, Caryl Davies, Sian Roberts-Jones a Eleri Rivers, a'r fedal arian yn mynd i masters Penarth and District Runners.

Bydd Ras Hwyl Ysgol Cwrtnewydd yn cael ei chynnal ar wyl y banc Mai Sed, am 12.45 y prynhawn. Ras 16.5 o filltiroedd Sarn Helen ar Mai 18fed o Glwb Rygbi Llambod, ras plant yn dechrau am 10.30 y bore a'r ras fawr am 11 o'r gloch. Nos Wener 23ydd o Fai yn Nhalylychau am 6.30 yr hwyr, a Chwmann ar 24ydd o Fai am 3.30 y prynhawn.

Carnifal a Mabolgampau

Cwmann

Ar gae'r pentref
Dydd Sadwrn Mai 24ain
am 12.30yp

Thema: Gwledydd

Ras Hwyl
I blant am 3.45yp
I oedolion am 4.30yp

Bwyd / Bar / Ffair /
Gweithgareddau Amrywiol

Fasech chi'n hoffi byw am ddim yn Llundon?

Ry'n ni angen help nos a bore gyda dwy ferch fach 5 a 2 flwydd oed. Bydde'r dydd yn rhydd i gymryd swydd, gneud 'internship' neu i fwynhau bod yn Llundon.

Ry'n ni'n chwilio am berson dwyieithog, dros 20 mlwydd oed i ddechrau cyn gynted â phosib. Rydym ni'n cynnig ystafell mewn tŷ cyfforddus a phob pryd bwyd, ond does dim tâl.

Os oes diddordeb gyda chi, anfonwch e-bost i Tomos: tomos.grace@gmail.com

Oh My Cod

Siop Pysgod a Sglodion

19 Stryd Fawr,
Llanbed

Oriau Agor:
Llun - Sadwrn 12 - 9
Sul - ar gau

LYN JONES

"At eich gwasanaeth"

- Torri porfa - o lawntiau bach i gaeau chwarae
- Symud celfi
- Unrhyw waith o gwmpas y tŷ a'r ardd

01570 481029

Lakefield
Llanybydder
SA40 9RL

Drefach a Llanwenog

C.Ff.I Llanwenog

Cynhaliwyd Cwis Iau y Sir eleni yn Ysgol Dyffryn Teifi, aeth dau dîm o'r clwb i gystadlu, cafwyd noson llawn hwyl yng nghwmni aelodau clybiau de'r sir.

Cynhaliwyd cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Cymru ar faes y Sioe Frenhinol yn Llanfair y Muallt ar y 29ain o Fawrth. Braf oedd gweld nifer o aelodau C.Ff.I Llanwenog yn cynrychioli Ceredigion.

Adran Siarad Cyhoeddus Cymraeg: Dan 16 - Iwan Evans yn 2il fel siaradwr a'r tîm yn 1af. Dan 21 - Gwawr Hatcher yn 2il fel cadeiryddes a'r tîm yn 3ydd. Dan 26 - Enfys yn 2il fel cadeiryddes a'r tîm yn 1af gyda Steffan Davies yn aelod o'r tîm.

Adran Siarad Cyhoeddus Saesneg: Dan 26 - y tîm yn 3ydd gyda Cerys Lloyd ac Enfys Hatcher yn aelodau o'r tîm.

Canlyniad terfynol: CFfI Ceredigion yn gyntaf yn yr adran Gymraeg.

Hefyd ar yr un diwrnod bu cystadleuaeth y ciwb, cipiwyd y pedwerydd safle gyda Menna Williams, Luned Mair, Meinir Davies, Carwyn Davies ac Enfys Hatcher yn gyfrifol am greu'r crefftiau.

Llongyfarchiadau mawr i bawb.

Cafwyd noson o gawl a steddfod dafarn yng Nghefn Hafod. Noson llawn dwli llwyr o ganu, actio, barddoni a llawer mwy. Diolch i Eiddwen Hatcher am y cawl blasus ac i Pugh a Rhiannon ein llywyddion am feirniadu'r cystadlaethau.

Aeth rhai o'r aelodau i gymryd rhan yng nghystadleuaeth Gala Nofio'r Sir yn Aberaeron. Ar ddiwedd noson o gystadlu brwd daeth y clwb yn drydydd.

Llongyfarchiadau mawr i Geraint ac Iona (un o arweinyddion y clwb) ar enedigaeth eu merch fach Beca yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Daeth ton o dristwch dros ardal eang pan glywyd am farwolaeth Jim Evans, Fronwen yng nghartref Alltymynydd, Llanybydder yn ystod y mis. Cydymdeimlir â'i chwiorydd Beti, Mali a Val a'u teuluoedd i gyd yn eu galar o golli brawd, ewythr a hen ewythr hoffus iawn. Bu'r angladd yn Amlogfa Aberystwyth yn dilyn y Pasg.

Gwerthfawrogiad

Dymuna Mrs Mary Davies, Maesglas ddiolch o waelod calon i bawb a bu yn gwneud ymholiadau amdani tra bu yn yr ysbyty, ac hefyd ar ôl iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Prince Philip, Llanelli ac hefyd adref ar yr aelwyd ym Maesglas wrth iddi wella. Gwerthfawrogi pob carden, y blode hyfryd a'r dymuniadau da yn fawr iawn.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Emyr Jones, Meysydd sydd wedi derbyn

triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn.

Da yw deall hefyd fod Mrs Mary Davies, Maesglas yn gwella yn dilyn ei llawdriniaeth hithau yn ystod mis Ebrill.

Diolch

Dymuniad Mrs Mair Davies, Dolwerdd yw diolch o galon i bawb am bob consyrn amdani tra bu hi yn Ysbyty Glangwili ac hefyd ar ôl iddi fod yng nghartref Hafan Deg, Llambled am rai wythnosau wrth iddi gryfhau a dychwelyd adref i'w haelwyd yn Nolwerdd. Gwerthfawroga bopeth yn fawr iawn.

Eglwys Santes Gwenog

Gobeithiwn ichi gael Pasg hapus a bendithiol. Roedd yn braf gweld y gosodiadau celfydd o flodau'r Gwanwyn yn harddu'r Eglwys wedi tymor dwys y Grawys. Diolch i'r gwragedd am eu cyfraniadau hael, roedd eu hymdrechion yn dyst i'r gorfoledd a'r llawenydd sydd ynghlwm wrth atgyfodiad Crist. Dyma'r Wyl bwysicaf yng nghalendr yr Eglwys.

Am y tro cyntaf eleni, gwahoddodd y Parch Suzy Bale aelodau'r bedair Eglwys i ddod i Lanwenog ar Nos Iau Cablyd i ymuno mewn swper 'Agape'; daeth pawb â phlât bach o fwyd i'w rannu.

Ychydig cyn y Pasg, collwyd un o aelodau hŷn yr Eglwys. Ein cydymdeimlad dwysaf â theulu'r diweddar Jim Evans, Frowen, Drefach. Ganwyd a magwyd Jim yn Frowen, a bu'n amaethu yno drwy gydol ei oes. Collodd y plwyf gymeriad hoffus a diymhongar.

Trist hefyd yw cofnodi marwolaeth Mr Elwyn Davies, Hwylfan, Llambled. Bu ef a'r teulu yn byw yn Rhiwson-uchaf, Drefach cyn iddynt ymddeol i Lambed. Bu'r gwasanaeth angladdol ym Methel, Drefach, a daearwyd ei weddillion ym medd y teulu yn yr Eglwys.

Cofiw'n am bawb sydd yn galaru, a dymunwn adferiad llwyr a buan i'r rhai sy'n anhwylyd, p'un ai adref neu mewn ysbyty.

Diolch hefyd i Eifion Davies am ei wasanaeth di-flino i'r papur bro - ymddeoliad hapus i 'Cloncyn'.

Y Gymdeithas Hŷn

Cychwynnodd cyfres tripiâu'r Haf ar ddiwrnod braf a mwynaid ym mis Ebrill. Taith gymharol fer oedd hon i Lanelli. Cyrraedd Parc y Scarlets erbyn 10.30 yb, a chael paned cyn dechrau'r siwrne o gwmpas ochr ddeheuol y stadiwm. Aed â ni i'r llawr uchaf yn gyntaf, a chael golwg odidog o'r maes o'r fan honno. Dangoswyd y bocsys a'r 'suites', pob un wedi'u henwi ar ôl cewri'r byd rygbi, a chlywsom faint fyddai'n rhaid talu i gael y fraint o'u



Siaradwyr gorau Cymru o Geredigion. Iwan Evans (Siaradwr) o Glwb Llanwenog, Catrin Davies (Cadeirydd) a Siorol Teifi (Diolchydd) o Glwb Pontsian yn ennill y Cwpan Arian fel tîm yn yr Adran Iau tra'n cynrychioli Ceredigion yng nghystadleuaeth siarad cyhoeddus Cymru yn Llanellwedd yn ddiweddar.



Plant hynaf Ysgol Llanwenog wedi pasio prawf beicio.



Plant y cyfnod sylfaen (Ysgol Llanwenog) yn gwisgo hetiau smart i ddathlu'r ffaith bod chwech o gywion bach wedi deor cyn gwyliau'r Pasg.

defnyddio!

Lawr i'r ail lefel, lle'r oedd ystafell anferth wedi ei henwi ar ôl teulu'r Quinells -meddir cynnal pob math o gynadleddau a phartïon yn y rhan hon pan nad oes gêm ymlaen.

Ar y llawr isaf, y mynediad i'r stadiwm, yr ystafelloedd ymarfer, newid ac ymolch - y cyfan yn agoriad llygad i'r aelodau. Nôl wedyn i'r caffî am frechdanau a phaned arall.

Siwrne fer yn y bws i ganol y dre, ac i Dŷ Llanelli, sydd wedi'i adfer dros y blynyddoedd diwethaf gydag arian oddi wrth gronfa Treftadaeth y Loteri ac o gronfa Ewropeaidd. Gwyrthiol yn wir yw bod y safle

yma wedi ei achub, a braf o beth yw ei weld wedi ei agor i'r cyhoedd unwaith eto.

Taith fer i Langennech am swper blasus cyn cychwyn am adre.

Bydd y trip nesaf ddydd Mercher, Mai 14eg yn mynd i Henffordd (Hereford). Enwau i Yvonne 480590 cyn gynted â posib.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Jim Evans Fronwen ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn ystod eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch yn fawr.

Clwb Clonc

Mai 2014

£25 rhif 106 :

Mrs Bet Davies,
Glyn-teg, Llanybydder.

£20 rhif 53 :

Kay Davies,
Or-nant, Llanwnnen.

£15 rhif 441 :

Mrs Eleri Thomas,
Blaencwmdu, Llanllwni.

£10 rhif 500 :

Teulu Davies,
Gwarffynnon, Silian.

£10 rhif 243 :

Steffan Jenkins,
Tyllwyd, Maestir, Llambled.

£10 rhif 14 :

Phyl Chapman,
Fflat 2 Bryngwyn,
Ffordd y Gogledd, Llambled.

Gohebiaeth

Annwyl olygydd,

Mae Bromas yn fand o Gaerfyrddin (a Chastell-nedd a Phontaman) ac ar fin dechrau rhyddhau senglau ym mis Mai a Mehefin cyn rhyddhau'r albwm Codi'n Fore ym mis Awst. Mae cefnogaeth leol yn hynod o bwysig i ni.

Ers rhyddhau deunydd yn 2013 mae Bromas wedi mynd o nerth i nerth, ac yn ystod y daith, wedi trawsffurfio fel chwedl Taliesin gynt. Erbyn hyn maen nhw wedi darganfod eu rôl fel gweithredwyr parti yn eu hardal leol, sef cordior Castell-nedd – Caerfyrddin, ac yn ôl aelodau'r band, dyma'r cysyniad sydd y tu ôl i'w halbwm diweddaraf Codi'n Fore a fydd allan ar label Rasp fis Awst. Yn ôl Llewelyn Hopwood, allweddellwr y band "Ni 'di cymryd ein hunain yn gymharol o ddifrif yn y gorffennol drwy ysgrifennu caneuon trwm a dwys, ond erbyn hyn ni 'di penderfynu rhoi'r gorau i hynny er mwyn creu cerddoriaeth sy'n eich cywilyddio os nad y'ch chi'n codi o'ch eistedd a dechrau dawnsio."

Merched Mumbai yw'r sengl gyntaf oddi ar yr albwm hynny – cân am ddyheu, am gariad ac am bopeth arall cyn belled ei bod yn achos i ddawnsio. Bydd modd lawrlwytho'r sengl oddi ar wefannau iTunes, Amazon a Google Play ar Fai 1af er mwyn cychwyn yr antur hafaidd tuag at ryddhau'r casgliad cyfan, Codi'n Fore, ym mis Awst.

Diolch yn fawr am eich amser, Llewelyn Hopwood, ar ran y band Bromas

O'r Cynghorau Bro



Cyngor Bro Llanllwni

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, nos Lun 10 Mawrth 2014 am 8.00yh. Cadeirydd: Tom E Bowen; Clerc: Eirlys Owen; Gohebydd y wasg: Dewi Davies. Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd cofnodion mis Ionawr gan Dewi Davies ac eiliwyd gan Emyr Evans. Llofnodwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd y Clerc ac Eric Davies wedi ymweld â pharciau cyfagos eto ond byddent yn gwneud cyn y cyfarfod nesaf.

Cadarnhawyd bod y wefan yn cael ei diweddarau.

Bryn - Yr oedd y Clerc wedi derbyn cadarnhad gan Tony Williams bod y Cyngor Sir wedi cwblhau y gwaith ac nad oedd dŵr ar yr hewl bellach, ond bod y Cyngor Sir yn dal i gadw llygad ar y safle i sicrhau na fydd problem yn codi yn y dyfodol.

Seddau a photiau blodau - Penderfynwyd ar y safleoedd canlynol: Neinant – Pot blodau; Maes – Pot blodau a sedd; Bryndulais – Pot blodau; Belle Vue – Pot blodau a sedd.

Adeilad ger y Swyddfa Bost - Doedd dim datblygiad pellach, felly penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu ag adran iechyd a diogelwch y Cyngor Sir am gyngor pellach.

Penderfynwyd yn unfrydol gan y Cynghorwyr i ofyn i Un Llais Cymru am gopi o Reolau Sefydlog ariannol ac eiddo.

Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau - Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu â Mathew Howells i drefnu dyddiad i gael cyfarfod ger yr ysgol ac i'w wahodd i gyfarfod mis Mai.

O'r Cynulliad gan Elin Jones



Wrth i mi ysgrifennu'r golofn hon, mae'r gwanwyn wedi'n cyrraedd go iawn. Mae'r haul yn tywynnu a thipyn o ymwelwyr i'w gweld ar hyd Ceredigion. Gwych yw gweld y sir wedi ymdopi mor dda yn dilyn y stormydd gaeafol. Mae yna dipyn yn mynd ymlaen nawr i hybu diwydiant ymwelwyr Ceredigion. Mae hysbysebion ar y teledu, ac wrth gwrs daw'r Gwyll i gynulleidfaoedd BBC4 cyn hir, gydag ail gyfres i ddod. Gwn hefyd fod nifer o fusnesau lleol yn gwneud llawer i hybu'r ardal. Mae cysylltiad band llydan yn broblem i rai, ond rwy'n parhau i bwyso ar BT a Llywodraeth Cymru i wella'r sefyllfa. Mae gwifrau ffibr 'superfast' nawr yn cael eu gosod yn Aberystwyth, a gobeithio gwelwn welliannau sylweddol i'r sir gyfan dros y flwyddyn nesaf.

Dros y misoedd nesaf, bydd rhywfaint o newid byd ym Mwrdd Hywel Dda. Cadarnhawyd y bydd cadeirydd a phrif weithredwr ein bwrdd iechyd lleol yn gadael eu swyddi. Gobeithiaf yn fawr y bydd hyn, yn ogystal â'r adolygiad o wasanaethau iechyd yn y canolbarth sydd ar droed, yn cynnig cyfle i edrych o'r newydd ar bolisiau iechyd yn ein hardal. Bu'r cyfnod diweddaraf yn un pryderus, wrth i welyau gau yn Ysbyty Aberteifi, a bygythiadau i driniaeth y galon ym Mronglais. Mae'n bwysig fod penaethiaid Bwrdd Hywel Dda yn deall y canlyniadau o or-ganoli gwasanaethau yn ein hardal ni. Byddai'n golygu gorfod teithio'n bellach, a rhoi gormod o bwysau ar Glangwili. Byddaf yn parhau i ymgyrchu ar hyn fel y flaenoriaeth uchaf dros y misoedd nesaf, ac rwy' wedi cyhoeddi nifer o syniadau polisi at y dyfodol ar faterion fel y defnydd o dechnoleg fodern i hwyluso'r Gwasanaeth Iechyd, hybu cydweithio gyda gwasanaethau cymdeithasol, a recriwtio mwy o staff.

Ymhlith y materion eraill sydd wedi bod yn cael sylw dros y mis diwethaf mae diogelwch ffyrdd. Bum yn cwrdd â grwpiau lleol mewn nifer o leoliadau – o Eglwysfach yn y gogledd, i'r ffin gyda Sir Benfro yn y de – lle mae angen gwella. Da oedd clywed am fuddsoddiad mewn gwella diogelwch i blant sy'n cerdded i'r ysgol mewn ambell ardal fel Comins Coch. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n edrych eto ar ddiogelwch ysgolion sydd ar briffyrdd, felly rwyf wedi bod yn dwyn eu sylw at achosion fel Llanarth a Phenparcau, i weld beth fedrir ei wneud i wella'r sefyllfa.

Cyfarfod Blynyddol Papur Bro Clonc

Clwb Rygbi Llanbed am 7 o'r gloch ar Nos Fawrth 13eg Mai

Dewch i ddathlu llwyddiant eich papur bro. Dewch â syniadau newydd. Dewch i wirfoddoli.

Bydd lluniaeth ysgafn i bawb sy'n dweud o flaen llaw eu bod am fynychu. Croeso cynnes i bawb.

YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai



Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Carys Davies 07890 883346

neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FUW,
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n rhesur gan
Awdurdod y Gwasanaethau Arianol, yng ngyfngellau cyffwrdd yswiriant,
o dan Ffôn Cefnys, 300930

Gwersi Gitar:

Hafod Wen, Pwllswyddog,
Tregaron, SY25 6JG.

Tiwtor: Gerald Morgan, Tregaron
geraldmorganguitar@hotmail.co.uk
www.geraldmorganguitar.co.uk



YOUTUBE
Gwersi Gitar Cymraeg
Caneuon Rygbi
Gitar i'r Cristion

01974 299367

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa


Uned 12 Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

☎ 01570 422955

☎ 01570 422232

Cludfwyd Indiaidd

NEHAR



Y bywyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled

☎ 01570 422893 / 422175

CANOLFAN ADDURNO

AA A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerau, Polion a thraciau lleni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheiriannau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont

Llambledr Pont Steffan

01570 423156

Ffarmers

Neuadd Bro Fana

Newyddion Da! Mae Cyngor y Neuadd wedi llwyddo gyda chais i'r Gronfa Loteri Fawr / Arian i Bawb am grant i brynu cyfarpar i'r Neuadd. Daw'r grant o £4,966.36 i dalu am gadeiriau a byrddau ychwanegol, ynghyd ag offer i'r gegin, llestri a chyllyll a ffyr. Gyda'r defnydd cynyddol a wneir o'r adnoddau yn y Neuadd, roedd angen gwella ar y ddarpariaeth. Dymuna Cyngor y Neuadd gdnabod a diolch i'r Gronfa am gefnogi gwaith y Neuadd o fewn y gymuned.

Cafwyd noson arbennig yng nghwmni Wish Gdula yn y Neuadd ar y 12fed o Ebrill. Mae Wish wedi cymryd rhan yn Marathon yr Himalayas lawer gwaith, a bu'n dangos sleidiau a sôn am ei brofiadau o dan y teitl 'A Trek in the Himalayas.' Cafodd Wish ei fagu ar fferm Wernfendigaid, Ffarmers, ac mae wedi dal cysylltiad â'r ardal ar hyd y blynyddoedd. Roedd felly yn bleser ei groesawu i'r Neuadd, a chafwyd noson gymdeithasol gyda bwffe wedi ei threfnu gan aelodau Cyngor y Neuadd i gloi'r noson. Diolch i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

Cymanfa Ganu

Cynhelir Cymanfa Ganu Bedyddwyr Cylch Caio a Llambod yng nghapel Salem, Caio ar brynhawn Sul, Mai y 18fed am 2.30. Yr Arweinydd fydd Mrs Ceinwen Evans, Cwmann, a'r Llywyddion fydd Mrs Alwena Evans a Mr Alwyn Evans o gapel Noddfa. Estynnir croeso cynnes i bawb. Bydd cyfle i'r cantorion baratoi yn y rihysal a gynhelir y Sul blaenorol yng nghapel Caersalem, Parcyrhos.

Rhifyn mis Mehefin

Yn y Siopau Mehefin 5ed

Erthyglau, Newyddion
a Llundiau i law erbyn
Mai 22ain

Coedwig Gymunedol

Aeth Long Wood i'r Gogledd

Ar 11eg o Ebrill teithiodd staff a nifer o wirfoddolwyr Long Wood i Blas Newydd Ynys Môn i fynychu cyfarfod blynyddol Llais y Goedwig, gyda'r bwriad i Goedwigoedd Cymunedol ddod at ei gilydd i rwydweithio, rhannu syniadau a thrafod gwybodaeth trwy weithdai. Roedd hwn yn gyfle gwych ac roedd eraill am wybod sut y daethom o hyd i gyllid i brynu safle Long Wood a cyllido'r Ganolfan Ymwelwyr. Parodd hyn i ni sylweddoli ein bod mewn sefyllfa ffodus gan bod nifer eraill yn datblygu Goedwigoedd tipyn llai o faint ac ar dermau les yn hytrach na'u perchnogi. Yn dilyn y gweithdai aethom ar daith i goedwig cymunedol Coed Llwynonn, lle roedd clychau'r gog yn blodeuo gerllaw y felin goed. Roedd yn ysbrydoledig i weld natur yn gweithio law yn llaw gyda mentergarwch.

Yn ystod ein cyfarfod cyhoeddus yn Ebrill gwnaeth Cyfarwyddwyr Long Wood adolygu'r penderfyniad i gwmpo ardal o goed 'Sitka Spruce' yn dilyn pryderon lleol. Penderfynwyd y byddai rhai o'r coed yn cael eu cwmpo er mwyn annog planhigion ar lawr y goedwig i ail egino drwy fod fwy o olau yn eu cyrraedd. Os hoffai unrhyw un wybod am ein cynlluniau i reoli'r goedwig mae croeso i chi fynychu ein cyfarfodydd cyhoeddus; bydd y cyfarfod nesaf ar yr 12ed o Fai yn Eglwys St Thomas Llanbed am 7.30 yh.

Daeth nifer o ymwelwyr i'r Goedwig yn ystod Mawrth ac Ebrill yn cynnwys Sgowtiaid Aberaeron drwy gynllun VINE. Cafwyd gweithdai llwyddiannus gan grŵp Theatr Ieuencid Llanbed a bu grŵp Ymddiriedolaeth y Tywysog yn brysyr yn creu gwelliannau i'r llwybrau.

Mae'r tywydd braf wedi galluogi'r gwaith ar yr Adeilad Ymwelwyr gan dîm Tŷ Pren i fynd yn ei flaen ac felly rydym nawr yn barod i ddenu nifer o wirfoddolwyr i gynorthwyo yn y cam nesaf o osod gwellt a rhoi cyfle i unrhyw un sydd yn awyddus i ddatblygu sgiliau adeiladu cynaliadwy. Os hoffech fod yn rhan o'r cynllun cyffrous yma cysylltwch â James Kendall.

Bydd taith gerdded gyda'r arbenigwr Ian Morris i ddarganfod adar drwy eu cân ar ddydd Sul y 1af o Fehefin. Mae croeso i chi ymuno â ni, byddwn yn gadael maes parcio Longwood ger Llangybi/Llanfair am 9yb.

Mae yna groeso i chi ymuno â'n rhestr bostio neu ein tudalen Facebook, gallwch cysylltu gyda ni ar 07557 386755 neu ar e-bost info@longwood-lampeter.org.uk



VINE yng Nghoedwig Cymunedol Long Wood

Bwriad cynllun VINE yw annog gwirfoddoli mewn amgylchedd hyfryd naturiol Coedwig Cymunedol Long Wood. Mae'r cynllun wedi'i ariannu yn rhannol gan Gronfa Fawr y Loteri Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Ernest Cook, Ymddiriedolaeth Elusennol y Stadiwm Mileniwm, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ymddiriedolaeth Tudor. Lleolir y cynllun mewn 3 gwahanol safle yn cynnwys Coedwig Cymunedol Long Wood, Allt Goch Llanidloes, a Choed Tŷ Llwyd Llanfarian. Gellir trefnu nifer o weithgaredd megis teithiau natur, adnabod bywyd gwyllt, rheoli coetiroedd. Yn ogystal â hyn gallwch ddysgu sut i greu eitemau crefft ac adeiladu gatau a stiellau. A diolch i gefnogaeth ein noddwyr gallwn gynnig y cyfleoedd yma'n rhad ac am ddim. Gallwn drefnu diwrnodau o weithgareddau arbennig ar gyfer grwpiau penodol fel pobl hŷn, gofalwyr ifanc, y di-waith a grwpiau cymunedol. Os hoffech i ni drefnu gweithgaredd ar eich rhan neu os dymunwch wybod mwy am gynllun VINE mae croeso i chi gysylltu â Meinir Evans neu Geraint Blayney ar 01570 493 224 neu e-bostio lampeter@tircoed.org.uk

Bu'r gweithgaredd VINE cyntaf yn llwyddiannus pan ddaeth 15 o grŵp Sgowtiaid Aberaeron i aros dros nos yng Nghoedwig Cymunedol Long Wood. Bu'r Sgowtiaid yn gweithio at ennill Bathodyn Coedwigaeth o dan hyfforddiant Tony Eames ac Anna Thomas a gwnaethant greu basgedi a blodau allan o bren fel anrheg Sul y Mamau.

Roedd gan yr Arweinydd Cynorthwyol a 3 aelod o'r Sgowtiaid reswm arbennig i ddathlu gan eu bod wedi cwblhau Gwobr Ddraig Efydd a gwnaeth yr Arweinydd Martha gwblhau Gwobr Ddraig Aur. Dywedodd 'mae'n dda i'r grŵp i ddod o hyd i leoliadau newydd i wersylla yn enwedig gan bod y cyfle i gysgu mewn hamog yn bonws mawr! Yn ogystal roedd cael Tiwtoriaid a oedd yn ysbrydoli'r bobl ifanc yn adnodd gwerthfawr – byddaf yn bendant yn argymhell y cynllun yma i arweinwyr eraill.'

Yn ogystal â gwahodd clybiau a chymdeithasau i gysylltu rydym hefyd yn gwahodd pobl all arwain a chynorthwyo sesiynau, er mwyn i ni drefnu sgysiau anffurfiol â chi a'ch cynnwys ar ein bas data o diwtoriaid addas ar gyfer ein gweithgareddau. Yr ydym hefyd yn awyddus i glywed am storïau diddorol am Goedwig Cymunedol Long Wood felly cysylltwch os oes gennych stori dda – bydd y rhai gorau yn cael eu rhannu!

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw

Cyfeiriad

Cod post

Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

		1				4
	2		4		7	6 1
9					7	
				5 9		6
	3		7		4	9
4			1 8			
		3				1
	4 9	8		1		7
5					4	

Atebion Swdocw mis Ebrill:

Llongyfarchiadau i
Eurwyn Davies, Heol-
y-Gaer, Llanybydder
a diolch i bawb arall
am gystadlu: Glenys
Davies, Gelli Aur,
Llanybydder; Bryn
Hughes, Cwmere,
Felinfach; Eirlys
Thomas, Awelfa,
Llanybydder; Eirlys
Davies, Eurfann,
Llanybydder a Rob Phillips, Llety
Clyd, Llanbed.

9	7	6	8	5	3	4	2	1
5	1	3	4	2	9	6	8	7
8	4	2	1	6	7	9	5	3
4	5	1	3	9	8	2	7	6
7	6	9	2	1	5	3	4	8
3	2	8	6	7	4	5	1	9
1	9	5	7	3	2	8	6	4
2	8	7	9	4	6	1	3	5
6	3	4	5	8	1	7	9	2

Cefn Hafo
Gorsgoch



01570 434238

Cyri bob nos Wener

£6 y pen

Cwis - nos Iau cyntaf bob mis

[bwyd yn rhan o'r noson]

Croeso cynnes i bawb!

W.D. Lewis
a' Fab

Machudwyr Amaethyddol
Agricultural Merchants

Melin Mark Lane Mill
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion SA48 7AG
Tel: 01570 422540
Fax: 01570 423644
www.wdlewis.co.uk

Hefyd yn
Broneb Stores
Pumsaint, Llanwrda
Tel: 01558 650215



Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Danteithion i de

* Pwdinau

* Arlwyio ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045

Alec Page
Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,

Llambod.

01570 423955

www.alecpageblacksmith.co.uk

**WILLIAMS
& BOURNE**

CYFREITHWYR.
COMISIYNYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambod**

■ 01570 422206 ■ 01570 423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Gohebiaeth



Rygbi Cyffwrdd yn Llandysul. Sesiynau i bobl ifanc ac i oedolion.

Cynhelir rhaglen (rygbi) cyffwrdd newydd sbon ar gyfer plant 9 i 12 oed (blynyddoedd 5, 6 a 7 yn ysgol). Mae cyffwrdd yn gêm wych y gall bechgyn a merched gystadlu ar yr un tîm, wrth ddatblygu'r sgiliau perthnasol i lawer o chwaraeon eraill megis rhedeg, pasio ac osgoad.

Beth yw 'Cyffwrdd'?

- Yn aml gelwir y gamp yn 'Rygbi Cyffwrdd', ond nid yw tacio, llinellau, sgrymiau, na chicio yn rhan ohoni
- Gêm gyflym sydd heb fod yn gorfforol ac sy'n cael ei chwarae ledled y byd
- Gêm hwyliog sy'n hawdd ei dysgu ac yn ffordd wych o gadw'n heini
- Gêm gynhwysol sy'n hybu cyd-chwarae rhwng bechgyn a merched
- Prif nodwedd y gamp yw ei bod yn syml

Rhowch Gynnig: Cynhelir tair sesiwn rhagflas er mwyn dysgu'r sgiliau sylfaenol gyda hyfforddwyr cymwysedig ar 16, 23 a 30 Mai 2014. Cynhelir cynghrair wythnosol ar ôl hynny - 6 Mehefin tan 25 Gorffennaf. Lleoliad: Caeau Chwarae Llandysul (cyfarfod tu allan y clwb criced). Amser: Dydd Gwener, 4.30 - 6.00yh

Yn ogystal â'r rhaglen i blant, fe fydd cynghrair i chwaraewyr hŷn. Gall unrhyw un dros 13 oed chwarae gyda oedolion yn rygbi cyffwrdd. Does dim tacio neu sgarmesau, felly gall merch 13 oed gystadlu ar yr un maes â dyn 30 oed. Fe fydd timau o ffrindiau, cydweithwyr neu glybiau chwaraeon yn dod at ei gilydd i chwarae mewn cynghrair wythnosol.

Cynhelir Noson Agoriadol Cynghrair Llandysul nos Wener, 6.30yh tan 8.00yh. Nid oes angen profiad blaenorol. Croesawir unrhyw un dros 13 oed, yn fechgyn a merched. Ceir rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r trefniadau ac i gofrestru ar wefan www.gorllewingwyllt.com



Annwyl gyfaill

Hoffwn rannu gwybodaeth rwy'n gobeithio sydd o ddiddordeb i chi ynghylch y cymorth rydym wedi'i roi i deuluoedd amaeth yng Nghymru a Lloegr yn ystod 2013. Rwy'n credu bod angen tynnu sylw at yr anawsterau mae ffermwyr, sy'n darparu bwyd i bawb, yn wynebu. Gall hyn fod oherwydd marwolaeth yn y teulu, salwch, clefyd mewn anifeiliaid, damweiniau, effaith tywydd, ayyb.

Yn draddodiadol, mae R.A.B.I. yn cynorthwyo pobl sydd wedi ymddeol o'r diwydiant oherwydd oedran, salwch, damwain neu anabledd, ond cyfartaledd oedran pobl newydd yr ydym wedi'u cynorthwyo yn ystod 2013 yw 57, a llynedd bu i ni gynorthwyo ddwywaith cymaint o bobl o fewn oedran gweithio nag y gwnaethpwyd yn 2012.

Rhodddwyd £2.2 miliwn gan R.A.B.I. mewn grantiau yn ystod 2013 - £1 miliwn o hwn i'r ardaloedd o angen uwch. Mae tua 1/4 o bobl a dderbyniodd grantiau gennym o fewn oedran gweithio.

Sut fu R.A.B.I. gynorthwyo teuluoedd sy'n amaethu yn 2013?

£35,000 - Grantiau hyfforddi Porth a delir i helpu pobl i ennill incwm ychwanegol o'r fferm. 9% - % cyfanswm y grantiau a ddyanwyd a wariwyd ar wresogi a biliau ynni. £235,000 - Y swm a dalwyd gennym i alluogi pobl i aros mewn cartref gofal o'u dewis. £335,000 - Gwerth y budd-daliadau lles a wnaeth ein swyddogion lles helpu i hawlio.

Ni fyddai'n bosibl i'r R.A.B.I. helpu ffermwyr oni bai fod gennym gefnogwyr gwyb - diolch i chi!

Mae'r diwydiant bwyd a ffermio'n darparu 3.5 miliwn o swyddi ac yn werth £9 biliwn i economi'r DU bob blwyddyn. Prynu cynnyrch Cymreig neu Brydeinig yw'r un peth y gallwn i gyd ei wneud fel defnyddwyr i gefnogi ffermwyr Prydain.

Pe hoffech wybodaeth ymhellach, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Diolch yn fawr iawn Linda Jones Rheolwr Rhanbarthol - Cymru R.A.B.I. 01559 364850

R.A.B.I.
CYMRU
Cefnogi Teuluoedd sy'n Ffermio

Cwmann



Terry Jones, Awel y Grug a fu'n rhedeg ym marathon Llundain a chodi arian i Ambiwylans Awyr Cymru ac Elusen Ymladdwyr Tân.

Clwb 125 Neuadd Sant Iago

£20 Mrs Glesni Thomas, 1 Heol Hathren; £10 Mrs Helen Davies, Tanyresgair; £5 Mr a Mrs B Hughes, Ramleigh; £5 Mr Les Roldery, Golwg y Dyffryn; £5 Mr Aled Evans, Hafod y Gân; £5 Mrs Bethan Lewis, 18 Heol Hathren; £5 Mr E Jones, Cilgell Isaf; £5 Miss Cara Mair Harries, Llain Delyn, Cellan; £5 Mrs Eva Brown, Tŷ Helyg.

Clwb 225 Ebrill

£20 Paul Jones, Preswylfa; £15 Mrs Anita Williams, Gwêl y Coed; £10 Seana Cathy Griffiths, Bryn yr Eglwys; £10 Eric Harries, Aberystwyth; £10 Dylan Lewis, Tycerrig; £10 Graham Howell, Min yr Afon, Stryd Newydd; £10 Tommy Price, Gelliwrol; £5 Sheila Lewis, Bryn Awel; £5 Eleri Davies, 13 Heol Hathren; £5 Emyr Jones, Hollis.

Cwmann

Ysgol Carreg Hirfaen

Cyn gwyliu'r Pasg bu plant blynyddoedd 3 a 4 yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog am dridiau. Cawsom dywydd bendigedig, gyda'r haul yn disgleirio'n braf arnom. Cafodd y plant amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys sgïo, gwibgartio, reidio ceffylau, dringo'r wal ddringo, rhaffau hir, nofio a saethyddiaeth. Gyda'r nos buom yn cerdded lawr i'r traeth a chael ychydig o amser yn adeiladu cestyll tywod cyn iddi dywyllu. Roedd y bwyd yn flasus iawn ac roedd yn braf cael rhannu ystafell wely gyda'n ffrindiau.

Sefydliad y Merched

Yn yr Hedyn Mwstard y bu cyfarfod mis Mawrth i ddathlu Gŵyl ein Nawddsant.

Cafwyd pryd blasus o gawl ag amrywiaeth o felysion i'w ddilyn, y cyfan wedi ei baratoi gan Liz Jones a'i staff.

Cyflwynodd Gwen, Llywydd y noson, ein Gŵr Gwadd sef Mr Gareth Jones, cyn brifathro ysgol uwchradd Llanbed a chyn gyfarwyddwr addysg Dyfed. Bu'n rhoi tipyn o hanes Nantlais, ac er ein bod wedi clywed amdano fel emynydd fe'n synnwyd braidd mai ef oedd awdur nifer o ganeuon cyfarwydd fel 'Tu ôl i'r dorth mae'r blawd'. Cafwyd noson ddiddorol dros ben.

Diolchodd Elma i Gareth am ei araith ac hefyd diolchodd i Liz a'i staff am y pryd blasus.

Dymunodd Gwen yn dda i Marian sydd wedi bod am gyfnod yn yr ysbyty.

Enillwyd y raffl gan Gwen, Mary, Bethan a Tegwen.

Yng nghyfarfod mis Ebrill Elma Phillips oedd yn y gadair i groesawu'r aelodau a'n gwestai o gangen Llanybydder. Croesawodd hefyd ein gwraig wadd sef Olive Bowen o gwmni Pethau Olyv. Merch o Drelech yw Olive, wedi ymddeol o'i gwaith yn nyrsio yn ysbyty Dewi Sant, Caerfyrddin, ac wedyn 'Team Practitioner' iechyd meddwl yng Ngheredigion. Mae wedi dechrau busnes, gyda'i ffrind Yvonne, yn gwerthu bagiau llaw, mwclis a sgarffiau. Yn anffodus roedd Yvonne yn methu dod i'r cyfarfod ac wedi ymddiheuro.

Bu Olive yn adrodd ei hanes a sut aethant ati i ddechrau'r busnes. Wedi ymddeol yr oedd yn edrych am rhywbeth i'w wneud a chynigiodd ei ffrind Yvonne ddechrau busnes gyda hi. Nyrs iechyd meddwl oedd Yvonne hefyd ac ar fin ymddeol. Wedi astudio'r mater a chael cyngor i ddechrau busnes daeth 'Pethau Olyv' yn fyw. Ar ôl i'r aelodau dreulio ychydig amser yn edmygu a phrynu rhai o'r nwyddau pert diolchodd Gwen i'r merched fu'n paratoi'r bwyd.

Mary enillodd y raffl sef sgarff liwgar wedi'i rhoi gan Olive, a Helena enillodd y raffl fisol. Diolchodd Llywydd cangen Llanybydder am y gwahoddiad i ymuno â ni.

Bydd y cyfarfod mis Mai ar nos Fawrth 6ed - cwrdd ar y Cwmins am 7yh - taith gerdded wedi'i threfnu gan Tegwen a Helena.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Beca Ann Jones ar basio Gradd 1 Piano gyda theilyngdod.

Marwolaeth

Trist oedd clywed am farwolaeth Betty Laurence, Crud-yr-awel yn Ysbyty Glangwili. Cydymdeimlwn â'r cysylltiadau teuluol i gyd.

Ymlaen i'r Bala!

Pob dymuniad da i Gôr Ysgol Carreg Hirfaen a fydd yn cynrychioli Ceredigion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala ddiwedd mis Mai.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i bawb sydd wedi bod yn teimlo'n anhwylyd yn ddiweddar.

Clwb 225

1. Mrs Gwenda Jones, 47 Heol Hathren, Cwmann, 50. 2. Mr John Lloyd, Pyllau Crynion, Cwmann, 135. 3. Mrs Gwen Jones, Gelli Ddewi, Cwmann, 89. 4. Mr Paul Jones, Preswylfa, Cwmann, 176. 5. Huw a Rose Jones, Pantycelyn, Cwmann, 56. 6. Mrs Veronica James, Caeralaw, Cwmann, 78. 7. Mrs Julie Evans, c/o 3 Nant-y-Glyn, Cwmann, 29. 8. Mrs Mary Davies, Dolcoed, Llanwnnen, 13. 9. Mrs Gillian Mason, Llambled. 10. Mr Kevin Doyle, Caradog Vue, Cwmann.

18 oed

Llongyfarchiadau i Rhys Douglas, Llwydfedw ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. Gobeithio dy fod wedi mwynhau'r parti a'r dathlu!

Cerdded Traws Cymru

Bydd criw o bobl leol yn gwneud taith gerdded ar draws Cymru ar Fehefin 21ain i godi arian tuag at Ymchwil Cancr y Pancreas er cof am y diweddar Jenny Jones, Hendai. Bydd y daith 42 milltir yn dechrau yn ystod oriau mân y bore o Landyfi yn y gorllewin a gorffen ym mhentref bach Anchor ochr draw Clawdd Offa yn Swydd Amwythig. Trefnir y daith ar y cyd gan Glybiau Rotari Llanidloes, Machynlleth a'r Drenewydd.

Y rhai sy'n hyfforddi'n galed ar hyn o bryd yw Carwyn Gregson a Lowri Wilson, Gwynfryn; Dylan Lewis, Tycerrig; Dylan a Carys Davies, Encil; Wyn a Meinir Jones,

Hendai; Lydia James, Angorfa; Sian Jones, Awel y Grug; Gethin Jones, Croesor; Teleri, Neil a Nia Gwyther, Pencoed Isaf; Michelle Jones, Llangybi; Anwen a Meinir, Aberaeron.

Os hoffai rywun gefnogi'r achos, gallwch noddi unrhyw un o'r uchod. Mae ganddynt ffurflenni noddi swyddogol. Gwerthfawrogir pob cyfraniad. Croeso i unrhyw un arall i ymuno ar y daith hefyd. Cysylltwch â Wyn, Hendai neu Teleri, Pencoed.

Eglwys Sant Iago

Dechreuwyd yr wythnos fawr gyda gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn yr eglwys ar fore Sul y Palmwydd dan arweiniad y ficer yr Hybarch Ddr William Strange. Gwnaed y darlleniadau gan Mrs Mair Richards a Mrs Rosa Lloyd. Yr organyddes oedd Mrs Ceinwen Evans.

Ar ôl y gwasanaeth cynhaliwyd Festri'r Pasg dan arweiniad y ficer. Agorwyd y Festri gyda gweddi yna rhoddodd y ficer ei adroddiad am y flwyddyn gan ddiolch i'r ddau warden gweithgar a'r swyddogion am eu cefnogaeth. Cafwyd adroddiad y trysorydd a'r ysgrifenyddes. Dewiswyd swyddogion am y flwyddyn – Warden y ficer: Mr Graham Evans, Warden y Bobl: Mr Danny Davies, Trysorydd: Mr Tom James, Ysgrifenyddes: Mrs Rosa Lloyd. Terfynodd y ficer gyda gweddi.

Trwy gydol y Garawys bu'r aelodau yn cwrdd yn y ficerdy dan arweiniad y ficer a thrafod y testun 'Gweddi'.

Ar nos Iau Cablyd cynhaliwyd gwasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn yr eglwys dan arweiniad y ficer. Gwnaed y darlleniadau gan Mr Graham Evans a Mr Danny Davies. Yr organyddes oedd Mrs Ceinwen Evans.

Ar fore Gwener y Groglith ymunodd aelodau Eglwys Sant Iago gydag aelodau Eglwys Llanyrcrws i gerdded a chario'r groes o sgwâr Ffarmers i'r eglwys. Cafwyd gwasanaeth tawel yn yr eglwys. Diolch i aelodau Eglwys Llanyrcrws am y cwpaned te a'r byns – braf oedd cymdeithasu.

Yn y prynhawn yn Eglwys Pencarreg cafwyd gwasanaeth o fyfyrddod dan arweiniad y ficer a chyfle i feddwl ymhellach wrth edrych ar ffenestr lliw yn dangos y croesholiad sydd yn Eglwys Sant Padrig.

Daeth nifer dda ynghyd i wasanaeth o'r Cymun Bendigaid yn yr eglwys ar fore Sul y Pasg dan arweiniad y ficer. Yn cynorthwyo gyda'r Cymun oedd Canon Wynzie Richards. Cafwyd neges bwrpasol gan y ficer. Gwnaed y darlleniadau gan Mr Graham Evans a Mr Danny Davies, wrth yr organ oedd Mrs Ceinwen Evans.

Llanbed

Gyrfa Chwist - Cartref Hafan Deg

Ar 26ain o Fawrth cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng nghartref Hafan Deg gyda Mrs Gwen Davies, Llanwnnen yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn: Dynion - 1af - Joan Lewis, Stryd Newydd, Llambled. 2il - Mary Jones, Stryd y Bont, Llambled. 3ydd - Ann Davies, Cwmann. Merched 1af - Barbara Shaw, Llambled. 2il - Ceri Lloyd, Ffostrasol. 3ydd - Sian Jones, Llambled. Carden Miniature - Dynion - Peggy Davies, Brohenllys, Felinfach. Merched - Cathrina Davies, Aberaeron. Bwrw allan-Enillwyr - Lil Thomas, Ffostrasol a Marged Phillips, Tregaron. 2il - Cathrina Davies, Aberaeron a Peggy Davies, Felinfach.

Diolchodd y trefnydd Gwen Davies i bawb am eu cefnogaeth.

Cynhaliwyd un arall ar 9fed o Ebrill yng Nghartref Hafan Deg gyda Gwen Davies, Llanwnnen yn arwain.

Enillwyr fel a ganlyn - Dynion - 1af - Peter Jones, Llambled. 2il - Peggy Davies, Brohenllys, Felinfach. 3ydd - Gwendoline Jones, Llanybydder. Merched -1af - Ceri Lloyd, Ffostrasol. 2il - Dilwen Rodrick, Stryd y Bont, Llambled. 3ydd - Gwenda Jones, Talsarn. Carden Miniture - Dynion - Mary Jones, Stryd y Bont, Llambled. Merched - Lil Thomas, Ffostrasol. Bwrw Allan - Enillwyr - Harry Williams, Ystrad Aeron a Peggy Davies, Felinfach. Ail - Gwenda Jones, Talsarn a Cathrina Davies, Aberaeron.

Adran yr Urdd

Llongyfarchiadau i barti unsain yr adran sydd yn mynd ymlaen i gystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Diolch i Rhiannon Lewis am eu hyfforddi ac i Lois Williams am gyfeilio. Diolch hefyd i Elin Williams am hyfforddi'r parti llefaru a fu'n perfformio ar lefel Sirol. Cafwyd noson hwylus yn yr adran yn creu Cardiau Pasg gyda chywion hyfryd arnynt. Bu deugain o aelodau'r adran yng ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog yn ddiweddar ac er na chafwyd llawer o gwsg bu'n benwythnos llawn hwyl a sbri! Diolch i'r staff a fu'n rhoi o'u hamser yn wirfoddol i fynd â'r plant, sef Anthea, Arthur, Amanda, Nicola, Anita, Anya a Llinos, ac hefyd i staff y gwersyll.

Merched y Wawr

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Ebrill gan y Llywydd, Morwen Thomas. Croesawodd hefyd ein gwraig wadd sef Yvonne Davies (Yvonne Cadman i llawer ohonom). Mae wedi ymddeol o'i gwaith fel Meddyg Traed ac wedi cyfnod o afiechyd ymddiddorodd yn hanes Llanbed. Mae erbyn hyn ar bwyllgor Cymdeithas Hanes Llanbed. Cafwyd

Llanbedr Pont Steffan

noson ddiddorol wrth iddi sôn am y stryd fawr yn y blynyddoedd a fu a'r presennol, a dangos lluniau o gwahanol gyfnodau. Diolchodd Veronica iddi am ddod atom a chynnal noson ddifyr. Diolch i Glesni, Gwynfil a Brenda am weini'r te a bisgedi.

Aethpwyd ymlaen i gynnal cyfarfod busnes a phenderfynwyd i gefnogi a gweini te yr Hen ac Ifanc.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Tegwen Morris yn cynnwys adroddiad ar yr arwerthiant bagiau llaw. Mae £19,000 wedi'i dderbyn ar hyn o bryd. Dywedodd hefyd yn y llythyr mae casglu ategolion fyddwn yn y flwyddyn 2014-15.

Enillwyd y raffl gan Morwen Thomas.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun Mai 19fed (nid y 12fed) - noson gan aelodau'r pwyllgor.

Grŵp Trafod Amaethyddol

28 Ionawr – Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Phil Stocker Prif Weithredwr yr NSA (Cymdeithas Genedlaethol y Defaid). Bu'n diweddarau'r aelodau ar sefyllfa'r diwydiant defaid yn y wlad a'r dylanwadau allanol arno. Roedd yn frwdfrydig iawn ar gyfer y dyfodol ac yn ffyddiog bod yna ddyfodol i'r sector yma. Croesawyd y siaradwr gwadd gan y Cadeirydd, Rhodri Evans, Llanio a chynigwyd pleidlais o ddiolch iddo gan Andrew Jones, Felindre Uchaf.

4 Chwefror – Gwili Jones Llanbed a Pheniel oedd yng ngofal y cyfarfod a daeth tyrfa dda ynghyd. Croesawyd pawb gan Nigel Davies ar ran y Cwmni a chafwyd ei hanes ganddo ers ei sefydlu gan Gwili Jones ei hun, cyn iddo gyflwyno dau gynrychiolydd o gwmnioedd Krone a Lely a ddaeth cryn bellter i'n hannerch. Roedd eu cyflwyniadau'n addysgiadol ac yn agoriad llygad i weld yr holl beiriannau sydd ar gael i hwyluso gwaith yr amaethwr – dim ond digon o arian sydd ei angen! Paratowyd pryd blasus o fwyd ar gyfer pawb a chynigwyd y diolchiadau gan John Davies, Tynllofft.

11 Chwefror – Dyma gyfarfod ola'r tymor ac Emrys John, Milfos, Technoleg Fferm GEA oedd y siaradwr gwadd yn rhoi ei hanes ac yn esbonio'i system ef o ffermio a thechnoleg y parlwr godro. Noson arall o rannu gwybodaeth a chyfle i glywed am ddatblygiadau yn y sector llaeth. Diolchwyd iddo gan Ben Williams, Gwastod.

Yn ystod y noson bu'r Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol a chafodd y swyddogion canlynol eu hethol: Llywydd: Rhodri Evans, Llanio; Llywyddion Anrhydeddus: Margaret Dalton, Gelligarneddau; Twynog Davies, Frondolau; Arthur Davies, Dolcoed; Aneurin Davies, Blaenplwyf Lodge; John H Jones,

Dolaugwyrdion Uchaf; Cadeirydd: Euros Davies, Ffosygaseg; Is-Gadeirydd: Eurig Jenkins, Pentrefelin; Ysgrifennydd: Gareth Jones; Trysorddion: Dai a John Evans, Ynys; Gohebydd y Wasg: Eira Price; Pwyllgor: Sion Evans, Cwm; Eirios Jones, Garthlwyd; Ben Williams, Gwastod; Rhys Williams, Baylliau.

Mai 7 – Trip y Gwanwyn i Fferm Fraser Jones ger Y Trallwng, yna i Fferm Wallcot, Llwydlo i ymweld â James Evans.

Gorffennaf 30 – Trefnir Trip i'r 'National Sheep Event' yn Malvern. Enwau i Aneurin Davies cyn gynted ag y bo modd.

Medi 1 – 6 – Trip Blynyddol y Gymdeithas i'r Alban – eto, enwau i Aneurin Davies neu Margaret Dalton.

Bydd tymor 2014 / 2015 yn cychwyn ddiwedd mis Medi neu ddechrau Hydref – manylion i'w cadarnhau.

Diolch i bawb am sicrhau tymor llwyddiannus arall yn hanes y Gymdeithas a chroeso i aelodau hen a newydd i'r tymor nesaf. Gobeithio y gwnaiff pawb fwynhau'r triapiau a diolch i'r rhai sy'n trefnu.

Noddfa

Roedd festri Noddfa yn orlawn ar Fawrth 8fed ar gyfer digwyddiad arbennig iawn i ddathlu'r Pasg. Cyfle oedd hwn i'n hatgoffa beth yw gwir ystyr yr Ŵyl ac ar yr un pryd mwynhau swper yng nghwmni'n gilydd a chymdeithasu o amgylch y byrddau. Croesawyd pawb yn gynnes gan ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos ac yna clywsom ychydig eiriau o'r Testament Newydd yn cyfeirio at baratodau gwledd y Pasg gan Margaret. Offrymwyd gras gan Elan, Sioned a Ffion cyn ein bod yn cyfranogi o'r prif gwr ardderchog wedi ei baratoi gan y chworiydd.

Wedyn bu pawb yn dyst i weithred syml Iesu yn golchi traed y disgyblion mewn ffordd effeithiol iawn yng ngofal Llinos a'r plant a darllenwyd geiriau Iesu a'r disgyblion gan Elan, Ann Morgan, Derek, Tudor a John Elfyn. Yn dilyn hyn mwynhawyd yr ail gwr sef dewis o bedwar pwdin chwaethus iawn. Ar ôl paned daeth noson hyfryd i ben â'r Gweinidog yn gweinyddu'r cymun. Derbyniodd y plant siocledi bach a sudd oren gan deimlo eu bod hwythau hefyd yn rhan o'r ordinhad bwysig hon.

Wrth fwrdd y cymun, cydymdeimlodd ein Gweinidog ag Anne Davies ar farwolaeth ei mam yn ddiweddar. Hefyd talodd deyrnged uchel i Anne am ei gwasanaeth amhrisiadwy fel Trysorydd am dros ugain mlynedd, ac fel gwerthfawrogiad cyflwynodd

rodd iddi ar ran yr eglwys ar ei hymddeoliad o'r swydd. Pleser a llawenydd mawr i'r Gweinidog oedd derbyn dau aelod newydd sef Gary ac Eiry Jones sydd wedi ymgartrefu ym Maesyllan. Bu'r ddau yn cydaddoli gyda ni yn Noddfa ers rhai misoedd bellach ac wedi setlo yn dda yn ein plith. Croesawyd hwy yn gynnes iawn fel aelodau.

Diolchodd John Morgan i'r Gweinidog am drefnu'r noson, i Ann Morgan am ei chymorth hithau, i'r dynion am baratoi'r festri ac i bawb oedd wedi cyfrannu tuag at y bwyd. Cytunai pawb ein bod wedi cael noson fendithiol a phlesurus.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Diolch

Dymuna Nesta Harries, 4 Y Deri, Llanbedr Pont Steffan ddiolch i'w theulu a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r rhoddion ariannol tuag at Gartref y Bedyddwyr yng Nglyn Nest Castell Newydd Emlyn a hynny ar achlysur ei phen-blwydd yn ddiweddar.

Oedfa'r Ifanc

Braf oedd gweld cynulliad teilwng o aelodau, rhieni a ffrindiau yn cydaddoli gyda'r plant a'r bobl ifanc mewn oedfa arbennig yn Noddfa wedi ei llunio gan Janet. Y thema oedd 'Cariad' a gosodwyd naws hyfryd i'r gwasanaeth gan ddatganiad swynol Lisa o'r emyn 'O Dad feth garwn'. Bu Gwenllian, Ffion, Sion, Osian Roberts, Rhys Tom a Dafydd yn cyhoeddi'r emynau. Darllenwyd rhan o'r Gair gan Sian Jones, offrymwyd gweddïau gan Llinos a Delyth a'r llefarwyr oedd Tomos Rhys, Osian Jones, Alwena, Iona, Sian Roberts-Jones a'r Parch Jill Tomos. Fe'n swynwyd gan ddeuawd Sioned a Ffion ynghyd â chân gan Elan, Sioned a Beca. Hefyd mwynhawyd grwpiau canu amrywiol yn cynnwys y plant ieuengaf sef Osian, Sion, Rhys Tom, Sion Ifan, Tudur, Gwenllian a Ffion a'r merched yn canu pennill yr un, heb anghofio datganiad soniarus y mamau gyda chymorth y bobl ifanc. Braf oedd gweld doniau'r Ysgol Sul ar eu gorau. Methodd Rhun â bod yn bresennol oherwydd anhwylder.

Bu sgwrsio hwyliog yn yr Ysgol Sul ynglŷn â phwy neu beth oedd y plant yn eu cysylltu â chariad a diddorol oedd clywyd eu hatebion amrywiol yn yr oedfa oedd yn cynnwys caru dad a mam, tad-cu a mam-gu, Ysgol Sul Noddfa, Duw, Iesu Grist, chwaraeon, Cymru ac anifeiliaid anwes.

Talodd y Parchedig Jill Tomos ei gwerthfawrogiad cynnes i'r plant, y bobl ifanc a'r mamau am wneud

eu gwaith mor raenus, i Janet am ei chyfraniad arbennig gyda'r bobl ifanc ac am gyd-lynnu'r cyfan ac yn olaf ond nid y lleiaf i Derek a John am baratoi'r llwyfan. Talodd ddiolch haeddiannol hefyd i Owen am wasanaethu wrth yr organ i'r canu cynulleidfaoel ac i Alwena a Janet am gyfeilio i'r plant.

Llongyfarchwyd nifer o'r bobl ifanc ar wneud yn dda mewn gwahanol feysydd yn enwedig Beca Roberts ar ei llwyddiant eithriadol fel cystadleuydd traws gwlad ar hyd a lled Cymru a thu hwnt. Dymunwyd yn dda i Lowri Elen sydd yn mynd ymlaen i gynrychioli Ceredigion yn yr unawd a'r unawd cerdd dant yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni, ynghyd â nifer o'r plant fydd yn cystadlu gydag ysgolion Bro Pedr a Charreg Hirfaen ac Adran yr Urdd.

Teimlai pawb oedd yn bresennol eu bod wedi cael bendith a boddhad mawr yng nghwmni'r plant a'r bobl ifanc.

Cymanfa'r Bedyddwyr

Cynhelir Cymanfa Ganu Bedyddwyr cylch Caio a Llanbedr Pont Steffan yng nghapel Salem Caio ar ddydd Sul 18 Mai am 2.30 o'r gloch. Edrychwn ymlaen i groesawu Mrs. Ceinwen Evans fel arweinydd. Am y tro cyntaf erioed un oedfa fydd eleni, gyda'r plant a'r oedolion yn canu bob yn ail. Llywyddion y Gymanfa yw Alwyn ac Alwena o Noddfa. Darperir lluniaeth ar y diwedd ac estynnir croeso cynnes i bawb.

Llywyddiant Eisteddfodol

Llongyfarchiadau cynnes i Beryl Davies, un o aelodau Noddfa, ar ennill cydradd cyntaf gyda John Meurig Edwards yn y gystadleuaeth ysgrifennu soned yn Eisteddfod Penrhyncoch yn ddiweddar ar y testun 'Sychder'. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Aelwyd yr Urdd


Daeth criw o'r aelodau ynghyd i wyllo ffilm gomedi ac i fwynhau popcorn a ffrwythau i ddiweddu'r tymor. Bu'n noson o chwerthin braf a phawb wedi cael noson wrth eu bodd. Bydd yr Aelwyd yn ail ddechrau ym mis Medi.

Estynnir llongyfarchiadau calonnog i Lowri Elen ar ei llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd rhanbarth Ceredigion. Daeth yn gyntaf yn yr unawd a'r unawd cerdd dant blwyddyn 10 a dan 19 oed. Yn ogystal fe'i dyfarnwyd yn ail yn y llefaru, yr unawd allan o sioe gerdd a'r cyflwyniad alaw werin. Hefyd bu'n hyfforddi parti unsain dan 12 oed Ysgol Bro Pedr ddaeth yn gyntaf. Canlyniadau gwyh Lowri. Pob lwc i ti yn Eisteddfod Genedlaethol Meirionnydd yn y Bala ar ddiwedd Mai.

Llanbedr Pont Steffan



Cyflwynodd cyn-ddiffoddwyr tân elw'r bingo misol, dros £500, i ddwy elusen – Alzheimer's Research a Parkinsons UK. Yn y llun mae Eric Williams, Cerry Evans (Ceredigion Alzheimer's Research), Phyllis Smith a Phillipa Davies (Parkinsons UK), a Gerwyn Jones.



Agorwyd chweched tymor Canolfan Cwiltiau Cymru gan Sara Edwards, Is Arglwydd Raglaw Dyfed. Yn y llun mae Sara Edwards, Janet Bolton, Jen Jones, Sandie Lush a Sarah James.

Cymdeithas Hanes

Y Parchedig Bill Fillery oedd siaradwr gwadd cyfarfod mis Ebrill, ac fe'i croesawyd yn gynnes gan y Cadeirydd, Selwyn Walters. Yn enedigol o Gaergrawnt, daeth yn Offeiriad ar eglwysi Llanllwni, Llanybydder a Llanwenog y 2003, a bu yno hyd 2010.

Cymerodd ddiddordeb mawr yn y gwaith pren sydd yn Eglwys Llanwenog, yn enwedig yn y cerfiadau sydd ar ben pob mainc. Gwaith Joseph Reubens, ffoadur o Wlad Belg adeg y Rhyfel Mawr, a'r Cynol Herbert Davies-Evans o Blas y Dolau ydynt, a chynlluniwyd hwy gan Mrs Davies-Evans. Roedd ganddi wybodaeth di-bendraw am flodau a natur, ac roedd yn ddarllenwraig frwd, gan fod dyfyniadau helaeth ymysg y cerfiadau.

Cofnodir enwogion Plwyf Llanwenog a'r cyffiniau agos; Ficer yr eglwys yn 1892-1922, ac i'w

ferch a fu farw yn 1893; pedwar yn coffau'r bechgyn a gollwyd yn y Rhyfel Byd cyntaf; Amaethyddiaeth, a ffermydd y plwyf a'u cyfeiri a fu o dan yr aradr yn 1917; Teulu'r Dolau a noddwyr eraill yn berthnasol i Eglwys Llanwenog. Dangoswyd lluniau bron iawn i bob un o'r meinciau, gan roi'r hanesion perthnasol iddynt yn eu tro. Mae'r storïau yn dal i ddod wrth i Bill Fillery ymchwilio'n ddyfnach i gefndir y gwaith godidog, a gobeithio ymhen hir a hwyr y cawn weld llyfr yn dod o'r wasg yn rhoi'r hanes gwych yma ar gof a chadw.

Diolchwyd iddo gan y Cadeirydd, gan gyfleu ei werthfawrogiad o'r cyfoeth hanes lleol a glywyd yn ystod y noson.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mai 20fed, 7.30 yn Hen Neuadd y Brifysgol, pan fydd Ray Williams ac Aled Jones yn rhoi hanes Cilcennin ddod a heddiw. Croeso cynnes i bawb.



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partïon

Yn y Gegin gyda Gareth



Coginio gyda Chyw Iâr

Mae cig cyw iâr wedi dod yn boblogaidd iawn nawr, yn un o'r cigoedd mwyaf poblogaidd sy'n cael ei fwyta yng ngwledydd Prydain. Nid oedd hyn yn wir yn y gorffennol – mae'n debyg mai dim ond y crachach allai fforddio ei fwyta! Ar ôl diwedd yr Ail Ryfel Byd daeth ffyrdd modern o gynhyrchu cyw iâr yn boblogaidd ac yn rhatach, yn galluogi pawb i fanteisio ar ddefnyddio cig cyw iâr.

Mae'n gig hyblyg sy'n gweddu i lawer o flasau cyfoes. Mae'n gig isel mewn braster, felly yn ran o ddeiet iachus gyda llawer o rinweddau pwysig hefyd. Gydag chymaint o doriadau cyw iâr ar werth, mae modd creu amrywiaeth eang o rysetiau.

Beth bynnag yw'r achlysur rwy'n sicr y bydd y rysetiau sy'n dilyn yn addas i chi.

Mwynhewch a phob hwyl!

Gareth.

Stribedi cyw iâr a 'dips'

Cynhwysion

Dwy frest cyw iâr

Dwy llond llwy fwrdd o flawd plaen

Un llond llwy fwrdd o olew

Dip Cnau (1)

3 llond llwy fwrdd o pysgnau crynsiog

4 llond llwy fwrdd o iogwrt

1 llond llwy de o groen oren a sudd

Dip Tomato (2)

5 llond llwy fwrdd o fromage frais

Un tomato wedi'i giwbio

2 llond llwy de o tomato puree

Un llond llwy de o gennin sifi (chives)



Dull

1. Sleiswch y cyw iâr yn stribedi a gorchuddiwr â blawd.
2. Cynheswch olew mewn padell ffrio a choginiwch y cig nes yn euraidd.
3. Dip (1): Gosodwch y cynhwysion mewn powlen gyda sudd oren i greu ansawdd dip. Dip (2): Gosodwch y cynhwysion mewn powlen a chymysgwch.
4. Gweinwch mewn powleni bychain gyda'r cig a letys.

'Etouffe' Cyw Iâr

Cynhwysion

2 owns o fenyn

1 winwnsyn bach, wedi'i giwbio

1 darn o seleri wedi'i giwbio

2 bupur coch / gwyrdd

1 llond llwy de o sbeis Cajun

1 llond llwy de o berlysiau

2 llond llwy fwrdd o olew

475ml o stoc cyw iâr

4 shibwns

2 llond llwy fwrdd o flawd

Halen a phupur

Dull

1. Toddwch y menyn mewn padell ffrio yna i mewn â'r llysiau. Coginiwch am 5 munud.
2. Ychwanegwch y perlysiau, sbeis, halen a phupur. Coginiwch am 2 funud, yna i mewn â'r blawd ac yn raddol y stoc. Coginiwch am 15 munud.
3. I mewn â'r cig a'r shibwns. Coginiwch am 10 munud nes bod y cig yn dyner.
4. Gweinwch gyda reis.

Selsig cyw iâr

Cynhwysion

175gm o friwsion bara

250gm o gig cyw iâr wedi'i falu'n fân.

1 cenhinen wedi'i thorri'n fân

2 wy, 1 ohonynt wedi'i wahanu

Pinsied o berlysiau a phowdwr mwstard

4 llond llwy fwrdd o laeth

Ychydig o friwsion bara i orchuddio

Halen a phupur



Dull

1. Cymysgwch y briwsion, cig, cennin, perlysiau, mwstard, halen a phupur; yna i mewn ag 1 wy ac 1 melyn wy gydag ychydig o laeth.
2. Rhannwch yn wyth, a ffurfiwch yn selsig. Curwch y gwyn wy a gorchuddiwr y selsig mewn wy a bara.
3. Toddwch y menyn mewn padell ffrio a ffrwch y selsig nes yn euraidd.
4. Gweinwch gyda salad.

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu â ni.

ADVE

ARNOLD DAVIES VINCENT EVANS
CYFREITHWYR

33 Stryd Fawr, Llambled
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Llogi Peiriannau G + C Plant Hire

Gwilym Evans
25 Heol-y-Dderi
Llanybydder
07971041676

Cysylltwch â ni am unrhyw
fath o waith ceibo a mân
waith sifil



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

- * Blinder / diffyg egni
- * Meigrin
- * Sciatica
- * Irritable Bowel Syndrome
- * Menstrual problems
- * a mwy

Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan

☎ 01570 422644

Llanfair

Noson yn yr Opera

Mae pobol Llanfair yn ymfalchïo yn y ffaith bod cerddor mor amlwg yn byw yn ein pentref. Yn ystod yr wythnosau diwethaf mae nifer fawr wedi cael y cyfle i weld a mwynhau gwaith diweddaraf John Metcalf, Tŷ Yfory, Heol Llanfair, sef yr opera 'Under Milk Wood' wedi ei seilio ar waith enwog Dylan Thomas. Ar nos Iau, Ebrill 4ydd cafwyd lansiad o'r opera yn Theatr Taliesin yn Abertawe lle roedd pob sedd yn llawn. Yn dilyn tri pherfformiad yn Abertawe symudodd yr opera i Aberystwyth am noson ac yna ymlaen i Gaerdydd a Chaernarfon. Cafodd dros ugain ohonom o'r pentre y cyfle i fynd ar daith i'r theatr yn Aberystwyth lle cafwyd noson arbennig. Mae'r opera wedi cael llawer o sylw yn y papurau dyddiol gyda beirniadaeth ffafriol dros ben.

Cwis rhyng-bentrefol

Ar nos wener, Ebrill 11fed cynhaliwyd cwis cystadleuol rhwng pentrefi Llanfair a Chellan. Daeth mwy nag arfer ynghyd i gystadlu, gyda tri thîm o Gellan a'r lleill o Lanfair. Ar ôl cystadlu brwd daeth y tîm gorau o bob pentref at ei gilydd mewn rownd derfynol, a Chellan oedd yn fuddugol. Diolch i Linda Quelch am ei gwaith caled yn trefnu'r noson a pharatoi'r cwestiynau. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Cafwyd noson hwylus iawn.

Marathon Llundain

Llongyfarchiadau i Ffion Quan, Sŵn yr Afon a gafodd ei dewis i gynrychioli Cymru yn un o'r rasys a drefnwyd i bobol ifainc. Hefyd i Daniel John, ŵyr Arwyn ac Eleri, Pentre, yntau wedi ennill yr hawl i gystadlu.

Clwb Cant

£20 Julian Bransdon 45; £10 Judith McKay 137; £10 Mathew Miller 153; £10 D. Williams 143; £5 Sally Leech 32; £5 Sara John 29; £5 Jac Hockenhull 77; £5 Angela Skidmore 22; £5 Liz Mercer 74; £5 Daphne Lewis 120.

Sefydliad y Merched

Llongyfarchiadau unwaith eto i ferched Llanfair a fu'n cystadlu yn y rali yn Nhregaron ddydd Sadwrn, Ebrill 12fed. Roedd wyth wedi cymryd rhan yn y gwahanol gystadlaethau a rhyngddynt wedi casglu digon o farciau i ennill cwpan am y marciau uchaf gan sefydliad unigol. Mae'r gangen wedi ennill sawl blwyddyn yn olynol. Mae llun ar y dudalen gefn.

MiS y PaPur Newydd

Colofn Dylan Iorwerth

Eisteddfod fach fawr yn y capel

Peth rhyfedd ydi chwaeth. Dyden ni ddim yn deall chwaeth pobol eraill ac, yn amlach na pheidio, dyden ni ddim yn deall ein chwaeth ein hunain chwaith.

Dyna ddaeth i fy meddwl i wrth eistedd yn Eisteddfod Capel y Groes y diwrnod o'r blaen – un o'r eisteddfodau mwya' llwyddiannus ers blynnyddoedd.

Nid poeni yr o'n i fod neb wedi cael cam – hyd y gwn i, wnaeth hynny ddim digwydd ... ddim mwy nag arfer beth bynnag. Ond sylweddoli na fedrwn ni'n aml ddweud pam fod rhywbeth yn apelio mwy aton ni na rhywbeth arall.

Pam fod wyneb ambell berson yn ddeniadol ac un arall heb fod – er bod yr ail yn hardd mewn ffordd draddodiadol a'r cynta'n llawer llai felly? A sut allwn ni gymryd yn erbyn rhai pobol – ac at rai eraill – hyd yn oed heb wybod pam?

Pam fod un llais yn creu teimlad ynoch chi ac un arall yn methu er fod y ddau yn canu'r un nodau'n union ac yr un mor gywir â'i gilydd? A pham fod ambell berfformiad yn eich codi chi y tu hwnt i'r hyn sy'n digwydd ar y llwyfan o'ch blaen?

Mae cwestiynau fel'n a wedi codi sawl tro wrth wrando ar y pianydd Llyr Williams ... piano sydd ganddo fo, fel pob pianydd arall ... yr un cyfuniad o nodau gwyn a du a'r rheiny wedi eu gwneud o ddefnydd, caled di-ildio ac yn taro tannau caled ... ond rhywsut mae'n gallu tynnu mwy o deimlad ohonyn nhw, yn gyffro a meddalwch.

Mi ddaeth yr un peth i'r meddwl yng Nghapel y Groes wrth wrando ar delynores ifanc. Telyn o bren a thannau ac ychydig fetel oedd ganddi hithau ond roedd y sain yn llawer mwy hudolus nag y gallai pethau mor ddideimlad eu creu.

Ac wedyn un ferch fach yn canu a rhywbeth na fedrech chi ddim mo'i ddiffinio yn ei llais. Hyd yn oed i dwpsyn fel fi, roedd hi'n amlwg ei bod hi'n ofnadwy o gerddorol ond roedd hynny'n wir am sawl un arall hefyd. Roedd ganddi hi'r peth ychwanegol hwnnw ...

Am wn i ei fod rhywbeth yn debyg i'r enghraifft honno yr oedden ni'n ei chael yn ein gwersi gwyddoniaeth erstalwm ... am y bont yn chwalu wrth i filwyr gerdded drosti. Oherwydd eu bod yn cydsymud yn hytrach na cherdded ar wahân blith draphlith, roedd siglo'r bont yn mynd yn fwy a mwy, nes ei bod hi'n torri.

Pan fydd rhywun yn canu ac yn eich cyffwrdd chi, mae fel petaen nhw ar yr un donfedd, yn creu ymateb ynoch chi a'r effaith oherwydd hynny yn llawer mwy na chanu mwy cyffredin.

Mae'n rhyfedd meddwl, ond chlywais i'r un perfformiad gwael trwy'r amser y bues i yn yr Eisteddfod; mi faswn i wedi talu arian da i glywed cyngerdd gan sawl un o'r perfformwyr yno. Mi fydd llawer yn gwneud eu marc.

Ac nid dim ond y canu chwaith. Dim ond cwpwl o gystadlaethau adrodd glywais i – adrodd yden ni'n ei ddweud yng Nghapel y Groes, nid llefaru – ond roedd y rheiny'n werth chweil hefyd. A chwestiwn tebyg yn codi eto ...

Pam fod un neu ddwy o'r adroddwyr, wrth adrodd stori, yn gallu cael gwrandawriad perffaith ... nes eich bod chi'n gallu clywed y gynulleidfa'n gwrando? Doedden nhw ddim yn gwneud dim dramatig nac yn gwneud cleme ond, rhywsut, trwy eu personoliaeth a grym tawel eu dweud, roedden nhw'n hoelio sylw'n llwyr.

Mi fyddai'n anodd iawn dadansoddi'r peth ... mae llais ac edrychiad yn bwysig; mae amseriad yn cael dylanwad ac mae distawrwydd yn gwbl hanfodol. Yn aml, y saib rhwng geiriau sy'n caniatáu iddyn nhw wneud eu gwaith.

Wrth gychwyn allan am yr Eisteddfod y dydd Mercher ar ôl y Pasg, do'n i ddim yn disgwyl dod adre'n myfyrio am bethau fel hyn. Mae'n rhaid ei bod hi'n gythrel o steddfod dda.

Hoffech chi roi mwy o sylw i'ch clwb? Ydych chi'n ohebydd y wasg i'ch cymdeithas?

Diddordeb mewn newyddion lleol? Am ddyysgu sut i ddefnyddio facebook a twitter?

Mae Papur Bro Clonc a Gwasanaeth Newyddion Golwg360 yn cynnal hyfforddiant ar gyfryngau cymdeithasol i unigolion a chymdeithasau lleol er mwyn cyflwyno newyddion digidol lleol iawn.

~ Dydd Mercher 14eg Mai 2014 ~

3 - 5 yp Gweithdy Cyfryngau Cymdeithasol neu gynhyrchu deunyddiau sain a fideo ar gyfer y we. 6 - 8.30 yh Creu a dosbarthu newyddion lleol iawn yn ddigidol ar Twitter, Facebook, YouTube ayb

~ Cysylltwch â cadeirydd@clonc.co.uk am fwy o wybodaeth. ~

Llangybi a Betws

Ysgol y Dderi

Daeth criw i ffilmio Miss Rhian a disgyblion blwyddyn 6 yn ystod gwers ymarfer corff. Bydd y ffilm ar gael ar App Campau'r Ddraig er mwyn rhannu arfer da mewn Addysg Gorfforol. Edrychwn ymlaen i'w ddefnyddio.

Bu PC Jackie yn siarad â disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ynglŷn â diogelwch y we. Roedd ei chyflwyniad bywiog yn atgyfnerthu'r neges bwysig o ddefnyddio'r rhyngwrdd yn ddiogel.

Fel rhan o'u thema 'Blitz', bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn ymweld ag Amgueddfa Rhyfel Abertawe. Camwyd nôl i'r gorffennol, a daeth yr hanes yn fyw. Yr uchafbwynt oedd cael cwrdd â Mr Jenkins, a oedd yn blentyn yn byw yn Abertawe adeg yr Ail Ryfel Byd.

Braint oedd i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 gael ymweld â Chapel y Carcharorion yn Henllan. Bu Jon Meirion Jones yn siarad am hanes y carcharorion Eidalaidd a ddaeth i Henllan adeg yr Ail Ryfel Byd, ac am hanes y capel. Aethant i fwynhau cinio blasus yn La Calabria wedyn, sy'n cael ei redeg gan Gino Vasami. Roedd tadcu Mr Vasami yn un o'r carcharorion Eidalaidd a ddanfonwyd i Henllan adeg y Rhyfel. Diwrnod bythgofiadwy.

Mae'r calendr chwaraeon wedi prysuro gyda blwyddyn 5 yn cynrychioli'r ysgol yn nhwrnament hoci, blwyddyn 5 a 6 yng nghystadleuaeth pêl droed yr Urdd, Ffestifal chwaraeon i flynyddoedd 3 a 4, a chystadleuaeth traws gwlad y cylch. Da iawn bawb am gystadlu ac am roi o'ch gorau, a llongyfarchiadau i bawb ddaeth i'r brig.

Diolch i griw Tir Coed Cymru am gynnal gweithdy coed yn yr ysgol gyda disgyblion blwyddyn 5. Dysgodd y disgyblion sut i gerfio pren yn ddiogel, ac roeddent yn hapus iawn gyda chynnyrch y dydd. Diolch hefyd am y rhodd caredig o fainc hyfryd i'r ysgol.

Fel rhan o'i thema 'Gwingo ac ymlusgo', aeth y Cyfnod Sylfaen i ymweld â Chanolfan Pili Pala Aberystwyth. Roedd y plant wedi rhyfeddu at liwiau a maint y pili pala ac wedi dangos diddordeb mawr yn y cacwn! Diwrnod i'r brenin.

Mae Ysgol y Dderi wedi ennill gwobr Ysgol Rhyngwladol am yr eildro. Mae hyn yn dyst i'r holl waith diflino mae'r Ysgol yn ei wneud yn hyrwyddo'r dimensiwn rhyngwladol. Daeth 6 o ymwelwyr o Ynys Elba yn yr Eidal i Ysgol y Dderi am wythnos cyn Pasg, a bu Aneurin Karadog yn helpu blwyddyn 6 i greu rap rhyngwladol fel rhan o weithgareddau Comeniws



Dathlu ennill gwobr rhyngwladol gyda Aneurin Karadog



Lili Jewell yn mwynhau yn Tŷ Pili Pala

eleni. Cynhaliwyd Diwrnod Rhyngwladol yn yr ysgol hefyd yn ystod y mis.

Da iawn chi blant o'r Cyfnod Sylfaen am gynnal prynhawn o Sgipio Noddedig ar gyfer Sefydliad y Galon. Cefnogi achos da a chadw'n heini hefyd – ardderchog wir.

Yn anffodus bu'n rhaid ffarwelio â'r cymorthyddion Miss Meinir, Miss Sian, Mr Gethin a Miss Fiona ar ôl y Pasg. Diolch iddynt am eu holl waith dros Ysgol y Dderi, a dymuniadau gorau i'r dyfodol.

Hamdden

Treuliodd y gymdeithas a'i ffrindiau brynhawn hyfryd a phleserus yn troedio o amgylch hen blas Waunifor sydd erbyn hyn wedi'i addasu yn ganolfan gwyliau a chymuned. Ar ôl mwynhau golygfa hyfryd o gennin pedr cafwyd te prynhawn bendigedig a phawb wedi mwynhau. Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol y Dderi ar Fai 2il pryd y disgwylir Sue Page i arddangos blodau.

Merched y Wawr

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd Gwyneth Jones ac hefyd y gŵr gwadd y Parch Ddr. Densil Morgan o Lambered. Cafwyd ganddo hanes ei deulu a'i yrfa yntau ac fel mae rhai o'i deulu wedi sefydlu yn yr Amerig. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch gwresog iddo am yr hanes diddorol gan Irene Lewis.

Mary Jones a Mair Spate oedd yng ngofal y te. Rhoddwyd y raffl gan Deborah Jones ac fe'i henillwyd gan Mair Spate. I'r cyfarfod nesaf ar Fai 2lain am 7 o'r gloch rydym yn disgwyl Helen Duffee i'n tywys o amgylch tirwedd yr ysgol. Dewch ag awgrymiadau am siaradwyr y flwyddyn nesaf i'r cyfarfod.

Adferiad

Dymuniadau gorau ac adferiad buan i Mr Allan Jones, Hengoed ar ôl iddo dderbyn llawdriniaeth yn ddiweddar.

Hefyd i Mrs Glenys Davies, Olmarch Villa, hithau wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais a Mr Martin Pugh, Coxhead ar ôl iddo yntau gael llawdriniaeth yn Nhreforys.

Dymuniadau gorau i Mrs Thelma Webb, Godre'r Coed sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Tregaron.

Brysiwch wella i gyd.

Cyngor Cymuned

Gellir gweld dogfennau ariannol y cyngor wrth gysylltu â'r clerc ar 493325 rhwng Mai 6ed a Mehefin 3ydd.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb yn CLONC, dywedwch wrth y cwmni ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Gweithdy Llechi Cymreig, Enwau Tai, Dillad, Llyfrau, Cds, Dvds, Anrhegion, Oriel a Gwasanaeth fframio lluniau ayb

Sianti

Uned 2 Monumental Works,

Stryd y Fro, Aberaeron

gyferbyn a Banc y Natwest

01545 571510

www.sianti.org



Toriad Taclus

Heol Caerfyrddin
Llanybydder
Sir Gaerfyrddin

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

Adeiladau'r Llywodraeth,
Heol Pontfaen, Llambered
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth
cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich
cartref

Ymgynghorwyr Yswiriant Eryl Jones Cyf

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb



Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

Llanllwni

Dyweddïo

Llongyfarchiadau mawr i Gareth, Ffynnon-Newydd gynt, a Manon, merch Wyn a Liz Roberts, Coeden, Llanfechell, Ynys Môn, ar eu dyweddïad. Mae Gareth yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ger Bangor. Mae Manon yn llais cyfarwydd ar Radio Cymru ar raglen Tudur Owen.

C.Ff.I. Llanllwni

Wel mae mis arall prysur wedi bod gyda ni yma yng nghlwb Llanllwni. Bu dau dîm o'r clwb yng nghystadlaethau bowlio deg y Sir. Daeth y tîm hyn – Meryl, Hefin, Sion a Josh – yn drydydd, a'r tîm iau hefyd yn drydydd – Hefin, Josh, Ifor ac Aled. Da iawn i chi gyd. Ar benwythnos olaf mis Mawrth, bu pump aelod o'r clwb yn cynrychioli Sir Gâr yng nghystadlaethau siarad cyhoeddus Cymru. Daeth y tîm darllen iau, yn cynnwys Sioned Bowen a Sioned Howells yn drydydd. Yn y tîm siarad cyhoeddus iau roedd Betsan a Mared, a daeth eu tîm hwythau yn gydradd drydydd. Roedd Ifor yn rhan o'r tîm adran canol a ddaeth i'r safle cyntaf. Da iawn i chi gyd, profiad gwyach a chanlyniad arbennig. Daliwch ati!

Ar Ddiwrnod Maes y Sir daeth Ffion a Sam â chwpan yn ôl i Lanllwni, drwy ennill y gystadlaethau 'Drive it Home', a chawsant y cyfle i cynrychioli'r Sir yng nghystadlaethau Cymru yr wythnos ganlynol. Go lew chi! Daeth cwpan arall i Lanllwni

wythnos yn ddiweddarach pan fu Anwen ac Aled yn fuddugol ar lefel Cymru yng nghystadlaethau 'ATV Challenge'. Canlyniad arbennig!

Ar nos Wener yr 11eg o Ebrill cynhaliwyd ein noson tip-it blynyddol yn nhafarn Talardd. Bu cystadlu brwd, ond tîm Alun, Geraint Jones a Geraint Evans a ddaeth i'r brig. Diolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi.

Mae'r aelodau yn brysur nawr yn paratoi gogyfer y rali, sy'n prysur agosáu. Ymunwch â ni mis nesaf i weld y canlyniadau.

Bydd cinio'r clwb eleni yng ngwesty'r Plough, Rhosmaen, ar nos Sadwrn 24ain o Fai. Enwau i Meryl erbyn diwedd y mis os ydych am ymuno â ni. Hwyl am y tro!

Undeb y Mamau, Eglwys Sant Luc, Llanllwni

Yn ein cyfarfod mis Mawrth, daeth Chris o Cariad Glass, Llandysul atom i arddangos darnau o'i waith. Mae'n gweithio gyda gwahanol fathau o wydr, sydd â gwahanol drwch hefyd. Aeth drwy'r broses o greu ffenestr fach, a darnau i'w rhoi fel anrhegion – popeth mewn lliwiau llachar hyfryd. Mae ei grefft yn gywain iawn, ac roedd pawb yn edmygu'i sgiliau. Braff yw gweld crefftwr fel Chris wedi ymgartrefu yn Llandysul.

Ein Milltir Sgwâr Ni

Braff oedd gweld dros 70 yn arddangosfa hanes ardal Llanllwni ar y 12ed o Ebrill. Cafodd y cynllun ei ariannu'n rhannol



Tîm buddugol y Tip-It, CFfI Llanllwni.

drwy Gynllun Grantiau Tirwedd a Threftadaeth Sir Gâr gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Cynllun Datblygu Gwledig, Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gâr a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Ynghyd â llyfryn diddorol 'Ein Milltir Sgwâr Ni: Pobl Plwyf Llanllwni' mae yna fas data wedi'i greu sydd yn hwyluso'r broses o archwilio hanes teulu gan bod manylion a lluniau holl gerrig beddau Eglwys St Luc Llanllwni wedi eu cofnodi. Mae cofnodi'r wybodaeth wedi'i wneud drwy ymdrech arbennig nifer o wirfoddolwyr. Os hoffech lyfryn neu CD gyda chopi o'r bas data mae croeso i chi gysylltu â Meinir Evans ar 01559 395699 neu e-bost meinir.evans@btinternet.com

Cylch Meithrin Llanllwni

Cynhaliwyd Bingo yn nhafarn y Talardd ar nos Lun 14 Ebrill, a'r elw

yn mynd at Gylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni. Gwnaed elw o £550.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb am eu cymorth, cefnogaeth a'u cyfraniadau i wneud y noson yn un llwyddiannus; diolch i John a Ann am fodloni i gynnal y Bingo, ac i Eric Davies am fod yn arwerthwr ar y noson yn absenoldeb Dewi Davies.

Bydd Isabelle a Powell yn ymadael â'r Meithrin ar ôl gwyliau'r Pasg ac yn dechrau yn nosbarth Cyfnod Sylfaen. Pob dymuniad da i'r ddau.

Croeso cynnes i ddau ddisgybl newydd sydd yn dechrau wedi'r Pasg yn y Cylch Meithrin sef Einir George ac Aneurin Davies, gobeithio y byddwch yn ymgartrefu ac yn hapus iawn yno.

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni ar 15 Mai 2014 am 8 yr hwyr yn Ysgol Gynradd Llanllwni. Croeso cynnes i bawb.

Cegin Gwenog, Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar gyfer pob achlysur:

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Hefyd yn Ystafell Weini newydd Clwb Rygbi Llambled yn gwneud:

- Cinio Dydd Sul 12.00 – 3.00
- Partion pen-blwydd ayb
- Ciniawau - Cyfarfodydd
- Bwyd Bedydd - Te Angladdau

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi – boed yn fawr neu'n fach.



Os am ragor o fanylion, cysylltwch â:
Tony a Mair Hatcher 01570 481230 / 07967 559683.

CEFNOGWCH JILL EVANS PLEIDLEISIWCH I BLAID CYMRU



Mae Jill Evans wedi:

- Sicrhau statws cyd-swyddogol i'r iaith Gymraeg yn Ewrop
- Gweithio dros leihau gwastraff a biwrocratiaeth yn yr UE
- Ymgyrchu dros heddwch a byd mwy cynaliadwy
- Pleidleisio bob amser dros yr hyn sydd orau i Gymru.

**ETHOLIADAU EWROP
DYDD IAU 22 MAI 2014**

Hyrwyddwyd gan Rhuanedd Richards ar ran Plaid Cymru, Ty Gwynfor, Marine Chambers, Llys Anson, Caerdydd, CF10 4AL.



Llanybydder

Dawns i ddewis swyddogion Carnifal



Cynhaliwyd dawns i ddewis swyddogion Carnifal Llanybydder ar y 5ed o Ebrill yng Nghlwb Rygbi Llanybydder, gydag enwau'r buddugwyr yn cael eu tynnu allan o het. Mae enillwyr eleni fel a ganlyn: Brenhines - Sophie Hughes, Morynion - Sian Morgan a Mili Bonning, Gwas Bach - Josh Rees, a'r Frenhines Iau - Sara Davies.

Llanybydder



Cynhaliwyd Cymanfa'r Frenhines, Mererid Davies, a'r Ffarmwr Ifanc, Arwel Jenkins, CFfl Ceredigion, ar nos Sul 6 Ebrill 2014 yng Nghapel Aberduar, Llanybydder. Dewiswyd 10 o emynau modern gan Mererid, Arwel, a'r morwynion. Arweiniwyd y noson yn wych gan Gadeirydd CFfl Ceredigion, Einir Ryder, ac yn cyfeilio roedd Rhiannon Lewis wrth yr organ, Bryn Williams ar gitâr fâs, ac Aled Jones ar y drymiau. Cafwyd cyflwyniadau adloniadol gan aelodau o glybiau Pontsiân a Llanwenog. Llywydd y noson oedd Gwyneth Davies, Talgarreg a bu iddi roi yn hael tuag at yr elusennau a ddewiswyd gan Mererid ac Arwel, sef y R.A.B.I. a DASH. Darparwyd lluniaeth i bawb yn y festri yn dilyn y canu gan Mererid, Arwel, y morwynion a'u teuluoedd. Cyflwynwyd sicc am £400 ar y noson i Linda Jones, rheolwr rhanbarthol Cymru a Malcolm Thomas, dirprwy gadeirydd R.A.B.I. Dywedodd Linda: 'Rwyf yn wir ddiolchgar i Mererid ac Arwel am feddwl am y Royal Agricultural Benevolent Institution fel un o'r elusennau i elwa o'r Gymanfa. Mae ein buddiolwyr yng Ngheredigion ar gyfartaledd yn derbyn rhwng 40-50 o filoedd yn flynyddol oddi wrth y R.A.B.I., felly rydym yn gwerthfawrogi'r rhodd hon yn fawr iawn.

Clwb Hoci Llanybydder

Hwylus a llwyddiannus yw'r geiriau i ddisgrifio hanner olaf tymor Clwb Hoci Llanybydder. Ar ôl aildrefnu llawer o gemau oherwydd y tywydd garw, gwnaeth y tîm eu gorau ym mhob perfformiad. I ddechrau, lan i Aber i chwarae Bow Street, gêm agos a chaled, roedd sgiliau arbennig yn cael eu hamlygu gan y ddau dîm, a Llan yn hapus gyda'r perfformiad ac yn dod oddi yno gyda gêm gyfartal o 3 gôl yr un.

Yng nghanol wythnos daeth Tregaron i lawr i Lanbed i chwarae gêm. Chwaraewyr ifanc Tregaron yn chwim a Llan yn gorfod pasio'n gywir i fynd ymlaen. Gêm dda ac amddiffyn a gôl-geidwad Tregaron yn arbennig gan achosi problemau i gêm ymosodol Llanybydder. Sawl cornel byr a'r gôl geidwad yn safio llawer, ond Llan yn ennill o 4-0.

Oherwydd aildrefnu gemau, cafodd Llan y sialens o chwarae 2 gêm mewn un penwythnos, lan i'r brifysgol yn hwyr pnawn Sadwrn, ac yna lawr i Aberteifi i chwarae Crymch ar y dydd Sul. Dechreuodd y penwythnos yn dda, pasio cywir ac amddiffyn cadarn, yn rhoi pêl taclus i'r ymosodwyr fynd at y gôl. Roedd y myfyrwyr yn gweld hi'n anodd stopio chwaraewyr Llan sgorio, gan anelu a saethu'n gywir ac o ganlyniad yn dod oddi yno roedd 11 chwaraewr blinedig ond yn ennill 12-0, hapus iawn!

Gyda chosau blinedig a stiff, lawr i chwarae Crymch bu'n rhaid gwneud ar y bore Sul, gyda'r un tîm yn union ac yn hyderus o'r perfformiad ar y dydd Sadwrn, roeddent yn gobeithio cael yr un canlyniad. Eto, chwarae chwim a saethu di-ri o basio arbennig, roedd Llan ar dân. Perfformiad rhagorol i ennill 11-0 yn erbyn Crymch, a oedd yna'n dod nôl i Lanbed i chwarae ar y Sadwrn canlynol.

Perfformiad gwell gan Grymch ar y penwythnos wedyn, amddiffyn mwy cadarn, ond eto, Llan gyda dim ond 11 yn y sgwad i'r gêm yma, pawb yn tynnu gyda'i gilydd ac yn gweithio'n galed am y gêm gyfan, i gael buddugoliaeth ac ennill 4-1.

Gêm olaf y tymor oedd yn erbyn Llandysul yn Aberteifi. Eto, 11 o chwaraewyr oedd gan Llan, ac yn gwybod o brofiad byddai'r gêm yma'n un anodd. Llanybydder yn setlo'n gyflym ac yn sgorio'n gynnar yn y gêm i wella'r nerfau. Pasio da a chyfathrebu a gôl arall yn dod, ennill 2-0 ar yr hanner. Cornel gosb Llanybydder daeth â thrydydd gôl y tîm, dim ond i Landysul wneud yr union yr un peth funudau cyn diwedd y gêm. Llanybydder yn hapus iawn gyda'i pherfformiad yn y gêm yna ac yn ennill 3-1. Diwedd glo arbennig i'r tymor. Ni fydd ymarferion rhagor tan yr haf.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Lyn ac Avril, Lakefield ar ddod yn dad-cu a mam-gu. Ganwyd Beca Fflur ar y 30ain o Fawrth, sef Sul y Mamau.



Diana Harper a Heather Davies o Sefydliad y Merched Llanybydder yn cyflwyno sicc o £250 i Eurwyn Davies, Cadeirydd Pwyllgor Buddiannau Henoed Llanybydder, arian a godwyd ganddynt yn y Ffair Nadolig a gynhaliwyd yn y Llew Du Llanybydder. Dymuna'r pwyllgor ddiolch yn gynnes iddynt.



Ar y 1af o Fawrth eleni, cafodd aelodau eglwys Bedyddwyr Cylch Gogledd Teifi gyfle i gyfarfod yn festri Aberduar i rannu cinio ganol dydd ac i glywed gan Julia a James Henley, a'u merch Katie Grace, wrth iddyn nhw ddychwelyd nawr o'u gwaith cenhadol yn Periw, a ffarwelio â ni ar derfyn eu tymor gyda Chymdeithas Genhadol y Bedyddwyr. Ac wrth ein bod yn dathlu Gŵyl Dewi, diolch i Elan Jones ac Enfys a Gwawr Hatcher am ein diddanu hefyd. Fydd teulu'r Henleys ddim yn teithio mor bell ar gyfer eu maes nesaf, oherwydd cafodd Julia a James alwad i fod yn weinidogion Eglwys y Bedyddwyr yn Budleigh Salterton, yn Nyfnaint, ac fe ddymunwn fendith Duw ar eu gwaith. Yn y llun gwelir y Parch Jill Tomos, Julia Henley, Elan Jones, James a Katie Grace Henley, Enfys Hatcher a Mair Jones.



Cynhaliwyd cyngerdd ar nos Sadwrn, 5ed o Ebrill yn y Llew Du Llanybydder i godi arian i Ymchwil Canser Cymru. Bu'r noson yn llwyddiannus iawn a chodwyd £942.80. Diolch i'r llywyddion Richard Davies a Kristy Lewis am eu rhodd hael tuag at yr achos.

Cydymdeimlo

Cofiw'n am Simon Jones a'r teulu oll yn Nolau Villa yn eu profedigaeth o golli ei frawd, Mr Tommy Jones o Felinfach, yn ystod mis Ebrill. Gedy Tommy fwch mawr ar ei ôl gan iddo fod mor sionc ar hyd ei oes. Dim ond Simon sydd nawr ar ôl o blith y naw o blant. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf a llwyr.

Cwmsychpant

Cydymdeimlo
Ar ddechrau mis Ebrill daeth tristwch dros ardal eang yn sgil marwolaeth Jackie Ryder, Tyngrug-ganol. Nid oedd wedi mwynhau'r iechyd gorau ers peth amser ond roedd yn cymryd diddordeb yng ngwaith y fferm tan y diwedd. Preifat bu'r angladd yng Nghapel y Cwm o dan ofal ei weinidog, y Parch Wyn Thomas. Danfonwn ein cydymdeimlad dwysaf â Gareth, Nanna, Deian ac Einir yn eu profedigaeth lem o golli tad, tad yng nghyfraith a thadcu annwyl a pharchus dros ben.

Diolch
Dymuna Meleri Davies, Tyngrug-Isaf ddiolch o galon i bawb am y pentwr cardiau, yr holl gyfarchion ac anrhegion a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar. Gwerthfawroga hyn yn fawr iawn.

Gorsgoch

Llwyddiant
Llongyfarchiadau i Iwan Evans, Parcyrhos am dderbyn yr 2il wobwr am y siaradwr gorau dan 16 ar lefel Cymru. Roedd hefyd yn aelod o'r tîm buddugol. Hefyd i Gwawr Hatcher, Cefn Hafod am dderbyn yr 2il wobwr fel cadeirydd yn yr un gystadleuaeth. Da iawn chi.

Pen-blwydd arbennig
Bu dathlu mawr yn y pentref pan gafodd ddau o'r trigolion ben-blwydd arbennig – Dr David Rowson, Min y Gors a Rhydian Jones, Bronhaf. Pen-blwydd hapus i'r ddau ohonoch.

Capel Brynhafod
Cawsom swper y Pasg hyfryd yn y festri yn ddiweddar. Cafwyd gwledd blasus a chyfle i ystyried pwysigrwydd yr Ŵyl.

Gofynnir am gyfraniad o

£5

yn unig er mwyn rhoi neges o ddiolch ym Mhapur Bro Clonc os gwelwch yn dda.

Pencarreg

Codi Ymwybyddiaeth



Dwynwen Davies a'i merch Cadi Aur yn eu cartref ym Mhencarreg, yn codi ymwybyddiaeth i Parvovirus.

Diolch
Yn dilyn marwolaeth Richard Evans (Dic) Pantyfen dymuna'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt yn eu colled a'u hiraeth am aelod mor annwyl o'u teulu. Fel arwydd o goffâd am ei fywyd dymuniad Dic oedd gwneud casgliad, a chyflwyniad y swm anrhydeddus o £750 i Eglwys Sant Padrig, Pencarreg.

Cydymdeimlo
Trist oedd clywed am farwolaeth Mrs Annie Thomas, Claret House. Meddyliai yn fawr o'i phentref genedigol ac roedd yn ddisgybl disglair yn Ysgol Dolgwm, cyn symud ymlaen i ddilyn gyrfa fel athrawes. Ar noson aduniad Ysgol Dolgwm, Pencarreg yr haf diwethaf methodd fod yn bresennol gan ei bod yn wael ei hiechyd ac yng ngofal cartref Awel Tywi, Ffair Fach. Yn bresennol oedd cyn ddisgybl iddi o Ysgol Pencader a dywedodd mor felys oedd ei hatgofion am ei hathrawes alluog a'i charedigrwydd tuag at ei disgyblion. Canys o enau plant bychain yn ôl yr hen ddywediad y clywn y gwirionedd! Ar y pedwerydd o Ebrill daeth teulu a ffrindiau Annie i'w hangladd yn eglwys Sant Padrig. Y Parchedig Dr William Strange oedd yn gwasanaethu a soniodd am flynyddoedd diflino o wasanaeth ymroddgar yr ymadawedig. Bu'n organyddes, trysorydd ac yn Warden yr Offeiriad. Cydymdeimlwn yn ddwys â Malcolm ei mab, ei theulu a phawb a fu'n ffrind i Annie ar hyd y blynyddoedd.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Colofn Cefn Gwlad

gan Helen Howells, Uwch-swyddog Cefn Gwlad Cyfoeth Naturiol Cymru



Clychau'r Gog
I mi, mis Mai yw'r adeg orau'r flwyddyn. Mae'r dydd yn ymestyn ac mae'r ddaear yn cynhesu, sy'n cyfrannu at y bywyd newydd o'n cwmpas. Mae'n braf cael gweld y gwartheg yn mynd allan, yn colli'u caglau ac yn magu ar borfa felys gynnar. Mae'r cloddiau a'r gelltydd yn gyfoeth o glytwaith lliwgar o flodau'r Gwanwyn gyda'r botwm crys, blodyn y neidr a chlychau'r gog yn creu patrymau dyrys yn y borfa. Os ydych yn codi yn ddigon bore, cewch eich diddanu gan gôr y wig. Yr adar yn cynnal Eisteddfod eu hunain wrth iddynt gystadlu am eu tiriogaeth nythu.

Ond y peth mwyaf nodweddiadol am yr adeg yma o'r flwyddyn i mi yw cael cerdded trwy goedlannau yn llawn o glychau'r gog. Mae'r lliw cyfoethog a'r arogl melys yn codi'r galon ac yn fy atgoffa o'm plentyndod. Perthyn i deulu'r lili mae'r clychau'r gog, ac mae'n flodyn sy'n perthyn i ranbarth yr Iwerydd. Mae'r cynefinoedd lle mae'n tyfu, sef mewn coedwigoedd collddail, cloddiau ac ar glogwyni'r arfordir yn arbennig i Brydain, a cheir 40% o boblogaeth y byd yma.

Mae clychau'r gog yn gysylltiedig â nifer o storïau a chwedlau llên gwerin. Mae'r enw Lladin, *Hyacinthoides non-scripta*, yn deillio o chwedl Roegaidd. Pan fu farw'r Tywysog Hyacinthus, gwnaeth dagrau'r duw Apollo sillafu'r gair 'alas' ar betalau'r blodyn hyacinth a dyfodd o'i waed. Mae'r non-scripta yn golygu di-lythyren, sy'n dweud wrth bobl nad yr un blodyn â'r hyacinth yw clychau'r gog.

Cysylltir clychau'r gog â storïau'r tylwyth teg. Efallai bod rhai ohonoch yn cofio darllen llyfrau Enid Blyton pan oeddech chi'n blant. Credir bod y tylwyth teg yn defnyddio clychau'r gog i ddal pobl oedd yn cerdded heibio, yn enwedig plant bach! Mae rhai yn dweud pe byddech yn gwisgo torch o glychau'r gog, byddech yn cael eich gorfodi i ddweud y gwir. Gwnaeth y beirdd Seisnig Tennyson a Keats sôn bod clychau'r gog yn symbol o unigedd ac edifeirwch.

Rydym yn ffodus yn yr ardal yma i brofi gwledd o glychau'r gog ar yr adeg yma o'r flwyddyn ond mae'r blodyn yn prinhau ac y mae o dan warchodaeth gyfreithiol. Mae yn erbyn y gyfraith i bigo'r blodau ac i godi'r bylbiau. Mae hefyd yn dor-cyfraith i'w gwerthu, heblaw bod gennych drwydded i'w plannu mewn man sy'n cyfrannu at gadwraeth. Mae sathru dros y blodau hefyd yn niweidiol, felly os ydych yn ymweld â choedwig llawn clychau'r gog, ceisiwch gadw at y llwybrau penodedig a chofiwch gadw'ch ci ar dennyn!


Un o'r prif fygythiadau i'r clychau'r gog cynhenid (*Hyacinthoides non-scripta*) yw cystadlu yn erbyn a chroesi gyda'r planhigyn Sbaeneg (*Hyacinthoides hispanica*). Mae'r blodyn Sbaeneg yn cael ei blannu yn ein gerddi, ond mae'n blanhigyn grymus ac yn croesi gyda'r blodyn cynhenid i greu croes ffrwythlon. Y broblem fwyaf gyda'r groes yw ei fod yn gwanhau'r nodweddion arbennig sy'n gysylltiedig â'r blodyn cynhenid.

Dyma'r gwahaniaethau rhwng clychau'r gog cynhenid a'r rhai Sbaeneg:

Clychau'r Gog Cynhenid (<i>Hyacinthoides non-scripta</i>)	Clychau'r Gog Sbaeneg (<i>Hyacinthoides hispanica</i>)
dail cul, o drwch tua 1-1.5cm	dail llydan dros 3cm o drwch
blodau glas tywyll (weithiau yn wyn, ond byth pinc) siâp tiwb cul, lle mae'r tipiau yn cwrlo reit nol	blodau glas fwy golau (yn aml yn wyn ac yn binc) siâp cloch gyda'r tipiau yn lledu allan
mae'r blodau ar un ochr i'r goes yn unig, ac yn gwyro neu'n nodio ar y top	mae'r blodau ar bob ochr i'r goes dalsyth
mae ganddynt arogl amlwg, melys	nid oes ganddynt nemor ddim arogl
tu fewn i'r blodau, mae'r anther gyda'r pail gan amlaf yn liw hufen	tu fewn i'r blodau, mae'r anther gyda'r pail yn aml yn las



Clychau'r Gog Cynhenid



Clychau'r Gog Sbaeneg
Lluniau o wefan Plantlife



Enw: **Gwawr Bowen**
Oed: 23
Pentref: Llambed
Gwaith: Cynorwthwy-ydd dosbarth yn ysgol Bro Sion Cwilt
Teulu: Dad, Mam a fy mrawd Aled.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Aros ar y fferm gyda dad-cu a mam-gu.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Caffi Sali Mali.

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
Ffôn symudol yn canu mewn gwasanaeth Eglwys.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
I barchu pobol a bod yn gwrtais.

Taset ti'n gallu mynd nôl mewn amser, beth fyddet ti'n dweud wrth dy hun yn 16 oed?
Gwneud yn fawr o bob cyfle.

Y CD cyntaf a brynast di erioed?
Spice Girls, o'n i eisiau bod fel Posh Spice.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Athrawes fathemateg.

Beth oedd y peth ofnadwy wnest ti i gael row gan rywun?
Byth yn cael row, angel bach pryd hynny ac angel fach nawr!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Mas ar nos Sadwrn gyda fy ffrindiau.

Beth yw dy lysenw?
Bows.

Pwy yw dy arwyr?
Dadcu – o'n i wrth fy modd yn dysgu penillion doniol gyda fe.

Taset ti'n fisged, pa fath fyddet ti a pham?
Y bisged NICE, 'run fath â fi.

Beth yw'r peth gorau am dy swydd bresennol?
Bod yng nghwmni'r plant, mae sawl strab i gael 'na.

Beth yw'r peth gwaethaf am dy swydd bresennol?
Bod mas ar ddyletswydd yng nghanol gaef.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Pobol gyfeillgar.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Siopau o hyd yn cau a dim newydd yn dod yn eu lle.

Pa mor wyrdd wyt ti?



Fi yw'r frenhines ailgylchu yn ein tŷ ni yn tsheco bod pawb arall yn ailgylchu.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg pob tro!

Pa fath o ddeddf hoffet ti weld y Cynulliad yn ei phasio?
Penwythnos tri diwrnod.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobol gor-hyderus sydd yn meddwl eu bod nhw'n gwybod popeth.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Prynu tocyn i drafael o amgylch y byd.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Cathod, pob tro dwi'n gweld un mae'n hala arswyd arna i.

Pryd llefaist ti ddiwethaf?
Mewn angladd rhywun oedd yn annwyl i mi.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Ar ôl i fy ffrind Carys dwyllo fi i yfed absinthie yn Aberystwyth.

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Pan oedd yn rhaid prynu dau deiar newydd i fy nghar.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Ennill y loteri ac ymlacio ar draeth.

Unrhyw ofergoelion?
Dim rhoi sgidie newydd ar ford.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?

Cael fy swydd llawn amser cyntaf.

Ac yn bersonol?
Graddio o'r Drindod Dewi Sant.

Wyt ti'n dyfaru rhywbeth?
Peidio cario mlaen â gwersi piano.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Mynd i circuits a spino yn y ganolfan hamdden.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
I fwynhau pob diwrnod, mae bywyd yn rhy fyr.

Yr eiliad a newidiodd dy fywyd.
Symud o gartref i fynd i brifysgol.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Hapus, doniol, synhwyrol

Beth yw barn eraill amdanat ti?
Ffrind da sydd wastad yn sbort ar noson mas. (Diolch Ginge)

Pa gar wyt ti'n gyrru?
Fiat Punto glas

Beth yw dy hoff air?
Sens

Beth yw dy hoff wisg?
Pyjamas, digon cyfforddus

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
Bear Grylls, bydden i'n siŵr o oroesi.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Indian o Shapla

Beth yw dy ddiod arferol?

Peint o seidr neu fodca a lemonêd.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Cylchgronau gosip.

Beth yw dy hoff arogl?
Llyfr newydd.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Ar y sofffa yn dal lan â Gossip Girl.

Pa wefan wyt ti'n ymweld â hi fwyaf aml?
Facebook a Twitter

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
600

Hoff gân ar dy ipod?
Deamons gan Imagine Dragons

Pa raglenni sydd ar dy Sky+?
The Valleys a'r 'soaps' i gyd.

Sawl tecst y dydd wyt ti hala?
7

Pa ffilm welaist ti ddiwethaf?
Frozen, cael fy ngorfodi i wyllo gyda'r ddwy gyfnither fach.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
I fod yn berson mwy hyderus.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Ffôn symudol a lluniau.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Canu – ffaelun deg â chanu mewn tiwn.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Red Bull – joio'r stffw.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Gweithio gydag elusen DASH Ceredigion.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Handbags, mam wastad yn dweud bod gormod 'da fi.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Fy nheulu a ffrindiau.

Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnat ti?
Y ddau dad-cu – wastad yna i roi cyngor i mi.

Y gwyliau gorau?
Malia gyda'r merched.

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?
Ty Ddewi, copa'r Wyddfa ac ynys Enlli.



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.



Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi gyd wedi mwynhau eich gwyliau Pasg ac wedi bwyta digon o wyau siocled blasus! Sawl wy gawsoch chi? Gobeithio na fwytaoch chi ormod a chael bola tost!

Wel mi wnaeth nifer ohonoch chi blant fynd ati i liwio llun yr wy Pasg mawr mis diwethaf. Da iawn chi gyd. Roeddwn yn hoff iawn o luniau Ffion Morgan o Gribyn, Fflur Morgan o Drefach, Megan Dafydd Lewis o Gwmann, Swyn Tomos o Bencarreg, Elin Anne Lloyd o Drefach a Swyn Hâf Davies o Llanybydder. Ond yr wy Pasg mwyaf lliwgar y mis yma yw un Elen Morgan, Rhyd-y-felin, Drefach, Llanybydder. Llongyfarchiadau mawr i ti Elen!

Mae'r tywydd wedi bod yn braf y mis hwn eto ac mae'r ffermwyr yn brysur iawn yn aredig y tir. Pan es i am dro ar hyd caeau fferm drws nesaf, mi ges i'r ofan ryfedda, roedd yna fwg brain mawr yng nghanol y cae. Ond mi oedd e'n gwneud ei swydd yn dda iawn wrth ddychryn brain ac adar eraill rhag pigo'r hadau. Felly beth am fynd ati i liwio llun y bwgan brain a'i ddychwelyd i mi cyn Dydd Llun, Mai 26ain 2014.

Ta ta tan toc.




Enw:

Oed:

Cyfeiriad:

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne



Y BALA, LLYN TEGID A PALE

Daw'n Sulgwyn yn y man a bydd yn wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd; a chartref Eisteddfod Sir Feirionnydd 2014 fydd Caeau Rhiwlas ger Y Bala. Rhai o enwau lleoedd y sir nawdd fydd yn cael sylw y mis hwn.

Y BALA

Syndod imi wrth fynd ati i baratoi'r nodyn hwn oedd darganfod bod pymtheg Bala yng Nghymru. Dau le yn unig o'r enw hwnnw oedd yn gyfarwydd i mi: cerddodd Mari Jones i'r naill le i brynu ei Beibl yn 1800; Baladeulyn yn Nyffryn Nantlle oedd y llall. Mae un nodwedd, sut bynnag, yn gyffredin i bob un o'r pymtheg lle sy'n dwyn yr enw: a'r nodwedd honno'n holl bwysig wrth geisio egluro ystyr wreiddiol 'bala' sef adwy neu lwybr o dir sych rhwng gwlyptiroedd. Weithiau mae'n gwbl amlwg mai gwahanu llynnoedd a wna'r llain o dir sych fel yn achos Baladeulyn (bala + dau + llyn) lle'r oedd ar un adeg dau llyn, Llyn Uchaf a Llyn Isaf Nantlle. Baladeulyn oedd yr enw ar y tir rhwng y ddau llyn. Un llyn sydd ym Maladeulyn bellach; mae'r llall wedi'i sychu.

Ond mae 'bala' hefyd yn gallu dynodi safle lle y ceir un llyn ynghyd â thiroedd corsiog iawn sy'n aml dan ddŵr yn sgil glaw trwm yn disgyn dros gyfnod hir. Dyna arwyddocâd 'bala' yn achos y dref fydd yn croesawu'r eisteddfod eleni. Rhwng Llyn Tegid â thiroedd gwlyb afon Dyfrdwy yr oedd 'bala' sef llwybr sych diogel. Gellir gweld ei ôl o hyd - rhimyn o dir ger Bont Mwnghwl y Llyn. Awgrym go gryf mai dyma'r eglurhad rhesymol ar enw tref Y Bala.

Datblygiad diweddarach oedd y canfyddiad mai ystyr 'bala' oedd dŵr a oedd yn llifo o lyn. Beth bynnag yr eglurhad a beth bynnag y canfyddiad, mewn enwau lleoedd yn unig y mae'r enw 'bala' yn digwydd erbyn hyn.

Ac mae gan ein cefndryd Celtaidd enwau lleoedd ag ystyr debyg. Yn Fermanagh, Galway, Limerick a Tipperary ceir Ballagh. Yn yr Alban, ger

Loch Lomond, ceir Balloch. A'r ystyr mewn Gaeleg, 'adwy, ffordd drwodd'.

LLYN TEGID

Enw ar berson anhysbys yw Tegid, mae'n debyg, ond tyfodd sawl chwedl werin o gwmpas yr enw a'r llyn. Yn ôl un hanesyn, boddwyd plas Tegid dan ddŵr y llyn, a honnid bod modd clywed clychau'r ddinas ar wely Llyn Syfaddan pan fyddai'r dyfroedd yn cael eu cynhyrfu.

Hen enw Saesneg ar y llyn, o'r ddeuddegfed ganrif yn wir, oedd 'Pemblermere' ac mae elfen gyntaf yr enw hwn yn perthyn i'r gair Saesneg 'pebble'. Ystyr Pemblermere yw 'llyn y cerrig mân' ac mae'n cyfeirio at wely a glannau graeanog y llyn. Enw arall, wrth gwrs, yw Llyn y Bala ac fe wyddom erbyn hyn arwyddocâd yr enw 'bala'. Ond mae enw arall ar y llyn, yn ogystal, sef Llyn Aerfen; mae hwnnw'n digwydd mewn llenyddiaeth ganoloesol yn bennaf. Duwies rhyfel oedd Aerfen a chysylltir ei henw ag afon Dyfrdwy sy'n llifo o'r llyn.

PALE

Adeiladwyd Pale fel plasty. Yn 1871 y cwblhawyd y tŷ presennol. Erbyn hyn gwesty gwledig moethus a geir ym mhlwyf Llandderfel. Nodwedd braidd yn annisgwyl efallai yw bod y plas wedi bod yn cynhyrchu ei drydan ei hun er 1920. Dŵr o ben y mynydd sy'n gyrru'r twrbin sy'n cyflenwi holl drydan y plas. Enw lluosog yw Palau neu Pale a'i ystyr yw 'pyst, polion'. Yr awgrym yw bod y tiroedd o amgylch y plas wedi eu hamgylchynu gan byst.

MAE'R NODIADAU MISOL HYN AR ENWAU LLEOEDD YN CAEL EU PARATOI DAN NAWDD CYMDEITHAS ENWAU LLEOEDD CYMRU. CROESO ICHI YMUNO Â NI. WWW.CYMDEITHASENWAULLEOEDDCYMRU.ORG ENWAULLEOEDD@GMAIL.COM

Profiadau'r Plant



Timau pêl-droed Ysgol Bro Pedr yng nghystadlweth Sirol yr Urdd yn ddiweddar – y merched yn cyrraedd y rownd gyn-derfynol a'r bechgyn yn cyrraedd y chwarteri. Da iawn chi!



Rhai y ddisgyblion Ysgol Y Dderi gyda'u ffrindiau o'r Eidal, wrth allor Capel y Carcharorion, Henllan.



Ar noson Bingo'r Sioe ar 16 Ebrill 2014 yn y Clwb Rygbi, cyflwynwyd sicc o £1,000 i Gary Davies, sef elw'r Gymanfa Ganu gynhaliwyd fis Tachwedd fel rhan o ddathliadau'r Sioe yn 125. Yn y llun gwelir aelodau a swyddogion y Sioe ynghyd â Twynog Davies, Arweinydd y Gymanfa, a Gary Davies. Diolch i bawb am eu cefnogaeth a braf cyflwyno sicc at achos teilwng, Ymchwil Cancer y DU.



Cynhaliwyd Rali Gwanwyn Sefydliad y Merched Ceredigion yn Neuadd Goffa Tregaron ddydd Sadwrn, 12 Ebrill. Cangen Llanfair Clydogau enillodd y gwpan am y pwyntiau uchaf.